Llais Defnyddwyr Cymru
Gwarchod Buddiannau Defnyddwyr

Consumer Focus Wales
Wales' Consumer Champion

Heb weld y goleuni:

barn defnyddwyr am newid cyflenwyr ynni yng Nghymru

Ynglŷn â Llais Defnyddwyr Cymru

Corff Statudol yw Llais Defnyddwyr Cymru sy'n ymgyrchu dros sicrhau chwarae teg i ddefnyddwyr.

Fel rhan o Lais Defnyddwyr mae ein strwythur yn adlewyrchu natur ddatganoledig y DU.

Mae Llais Defnyddwyr Cymru yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr yng Nghymru, ac ar yr un pryd mae'n defnyddio ac yn cyfrannu at waith a wneir ar lefel Prydain, y DU ac Ewrop.

Wrth gynnig eiriolaeth ar ran ddefnyddwyr, ein nod yw dylanwadu ar newidiadau a pholisïau fel eu bod yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr yn well. Rydym yn gwneud hynny mewn modd deallus yn sgil y dystiolaeth a gasglwn drwy waith ymchwil, a'n gwybodaeth unigryw am faterion sy'n ymwneud â defnyddwyr.

Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar ddefnyddwyr agored i niwed, yn enwedig y rhai sydd ar incwm isel, pobl ag anableddau, pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a phobl hŷn. Yn ogystal, rydym yn ceisio adnabod meysydd lle gallai problem neu bolisi olygu bod defnyddwyr eraill dan anfantais anghymesur.

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu hoffech rhagor o wybodaeth am ein gwaith ymchwil cysylltwch â Lindsey Kearton, trwy ffonio 029 2078 7109 neu drwy anfon e-bost at lindsey.kearton@consumerfocus.org.uk

Llais Defnyddwyr Cymru
Llawr Gwaelod
Tŷ Portcullis
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd, CF11 9SR

Ffôn: 02920 787 100
Ffacs: 02920 787 101
E-bost: contactwales@consumerfocus.org.uk
www.consumerfocus.org.uk/wales

Tîm y cyfryngau: 02920 787100/111

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn Braille, mewn print bras neu ar CD sain, cysylltwch â ni.

Gall pobl sy'n fyddar, yn drwm eu clyw neu â nam ar eu lleferydd gysylltu â Llais Defnyddwyr drwy Gyfnewid Testun:

O ffôn testun, ffoniwch 18001 020 7799 7900

O ffôn, ffoniwch 18002 020 7799 7900

ISBN: 978-1-907125-58-4

Cynnwys

Crynodeb gweithredol 4

Argymhellion 7

Cyflwyniad 9

Prif ganfyddiadau 13

Y farchnad trydan domestig 13

Talu am drydan 16

Y farchnad nwy domestig 18

Talu am nwy 21

Pa mor aml y newidir cyflenwyr 23

Categoreiddio ymddygiad o ran newid cyflenwyr 25

Ymddygiad o ran y gwahanol gyflenwyr 26

Newid tariffau gyda chyflenwyr cyfredol 29

Rhesymau dros newid neu beidio â newid 30

Ymchwilio i'r farchnad 31

Arbed arian ar ôl newid cyflenwyr 33

Defnyddio'r rhyngrwyd a newid cyflenwyr 35

Rhesymau dros beidio â newid cyflenwyr 35

Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad o ran newid cyflenwyr 37

Dadansoddiad o ddata cymharu prisiau yng Nghymru 39

Y tebygolrwydd *o* newid cyflenwyr yn y dyfodol 43

Casgliad 47

Atodiad 1 – Dull ymchwil 49

Atodiad 2 – Y cymorth sydd ar gael 51

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio i ba raddau y mae defnyddwyr yng Nghymru yn ymgysylltu â'r farchnad ynni[1]. Mae'n seiliedig ar waith ymchwil a gomisiynwyd gan Lais Defnyddwyr Cymru ym mis Tachwedd 2011.

Ar adeg pan fo prisiau ynni yn amrywio, a'r rhagolygon yn awgrymu mai'r tueddiad fydd iddynt gynyddu yn y tymor hir, mae'n fwy hanfodol nag erioed bod pobl yn deall yn well sut i sicrhau'r fargen ynni orau ar gyfer eu hanghenion a'u hamgylchiadau. Yn yr un modd, mae'n hanfodol bod y farchnad yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr. Ers cyflwyno cystadleuaeth ddiwedd y 1990au mae Ofgem, y corff rheoleiddio, wedi datgan mai'r hyn sy'n sbarduno marchnad ynni gystadleuol yw defnyddwyr yn newid cyflenwyr ynni. Mae strwythur y farchnad a nifer y sefydliadau newydd sy'n ymuno â hi, yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at sicrhau cystadleuaeth effeithiol. Er hynny, mae Ofgem yn dadlau bod mwy o bwysau cystadleuol ar gyflenwyr i gadw cwsmeriaid presennol ac ennill rhai newydd, trwy leihau costau neu wella gwasanaeth i gwsmeriaid, pan fydd lefelau ymgysylltiad yn uwch ymhlith defnyddwyr – o ran cyfradd y bobl sy'n ymgysylltu â'r farchnad a pha mor aml maent yn gwneud hynny. Ceir llai o bwysau cystadleuol pan fydd lefelau ymgysylltiad yn isel. Canfu adolygiadau diweddar gan Ofgem o'r farchnad ynni yn 2008 ac yn 2011 hefyd fod cyflenwyr yn sicrhau elw uwch yn gyffredinol gan ddefnyddwyr nad ydynt yn newid cyflenwyr.

Ystyrir felly mai un dull allweddol o gynyddu cystadleuaeth rhwng cyflenwyr ynni yw ysgogi defnyddwyr i ymgysylltu'n rheolaidd â'r farchnad, a dylai hynny fod o fudd i ddefnyddwyr yn y pen draw. Gan fod mwy a mwy o bobl yng Nghymru yn cael trafferth talu eu biliau ynni, rydym o'r farn y dylid canolbwyntio ar sicrhau bod pob defnyddiwr yn cael y fargen ynni orau ar gyfer ei amgylchiadau.

Gallai hyn olygu newid eu cyflenwyr ynni yn rheolaidd, neu gallai hefyd olygu newid yn aml i wahanol dariff neu dariff mwy priodol gyda'r un cyflenwr. Dylid sicrhau ar yr un pryd bod pobl yn manteisio ar unrhyw gymorth y gallai fod ganddynt hawl iddo (gan gynnwys cymorth ariannol ar gyfer mesurau i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon).

Pa mor aml y newidir cyflenwyr

Canfu ein gwaith ymchwil fod cyfran y bobl sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â'r farchnad ynni yn parhau i fod yn isel yng Nghymru. Mae tua dau o bob pump o ddefnyddwyr (tua 40 y cant) wedi newid cyflenwyr ond nid ydynt wedi gwneud hynny'n ddiweddar. Mae ein tystiolaeth yn dangos y gwnaed hyn yn bennaf wrth i bobl symleiddio eu trefniadau ynni trwy newid i drefniadau tanwydd deuol gydag un o'r cyflenwyr deiliadol[2] blaenorol, ac SSE (yn gweithredu dan y brand SWALEC yng Nghymru) a Nwy Prydain yn bennaf. Mae'r ddau gwmni wedi mynd ati'n benodol i annog pobl a oedd eisoes yn gwsmeriaid trydan neu nwy iddynt, i newid i gontract tanwydd deuol. Dyma'r ddau gwmni mwyaf blaenllaw yn y farchnad yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos bod ScottishPower, y cyflenwr trydan deiliadol yng Ngogledd Cymru[3], wedi bod yn llai llwyddiannus yn hyn o beth.

[1] Naill ai trwy newid cyflenwyr neu drwy ddeall y farchnad a gwneud penderfyniad cytbwys i beidio â newid

[2] Deiliadol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw un o'r cyflenwyr monopoli blaenorol (14 cwmni trydan a Nwy Prydain) cyn agor y farchnad i gystadleuaeth

[3] Arferai weithredu fel Manweb yn yr un ardal

O ystyried dau ben y raddfa, mae tua un o bob wyth defnyddiwr yng Nghymru (12 y cant) yn eu disgrifio eu hunain fel newidwyr rheolaidd h.y. maent yn newid cyflenwyr bob blwyddyn/ dwy flynedd. Ar y cyfan, mae hyn yn debyg i amcangyfrifon Ofgem ar gyfer gweddill Prydain. Mae llawer o'r defnyddwyr rhagweithiol hyn ar hyn o bryd gyda chyflenwyr ac eithrio'r cyflenwyr deiliadol, ac maent yn dueddol o fod yn y bandiau oedran canol, yn derbyn incwm uwch, yn defnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd, ac yn ymchwilio i'r farchnad yn bennaf gan ddefnyddio gwefannau cymharu prisiau. Dywedodd mwyafrif y bobl sydd wedi newid ar ôl defnyddio'r dull hwn eu bod wedi arbed yr arian yr oeddent yn ei ddisgwyl ar eu biliau ynni. Maent hefyd yn fwy tebygol o newid cyflenwyr yn y dyfodol.

Nid yw'n syndod mai arbed arian yw prif reswm pobl dros newid cyflenwyr. Mae defnyddwyr sydd wedi newid cyflenwyr gan ymateb i ymgyrchoedd gwerthu wyneb yn wyneb neu delewerthu, ac yn enwedig y rhai sydd wedi newid cyflenwyr ar garreg y drws, yn llai tebygol o fod wedi arbed arian. Y rheswm tebygol am hyn yw bod pobl yn teimlo dan bwysau i brynu heb fod â'r holl wybodaeth berthnasol angenrheidiol. Hefyd, nid yw bargeinion gorau cyflenwyr ar gael ar garreg y drws yn aml. Am yr union reswm hwn, galwodd Llais Defnyddwyr yn ddiweddar am roi'r gorau i werthu'n ddiwahoddiad ar garreg y drws am gyfnod o dri mis tra bod dulliau eraill yn cael eu hystyried. Erbyn mis Rhagfyr 2011, roedd pedwar o'r chwe chyflenwr mawr wedi cyhoeddi y byddant yn rhoi terfyn ar y math hwn o weithgarwch marchnata yn barhaol (SSE/ SWALEC[4], Nwy Prydain, ScottishPower ac npower). Mae EDF Energy wedi rhoi terfyn ar werthu o'r fath dros dro, ac E.ON yw'r unig gwmni nad yw wedi newid ei safiad.

Defnyddwyr wedi'u hymddieithrio

Un o brif ganfyddiadau ein gwaith ymchwil oedd cyfran uchel y defnyddwyr yng Nghymru nad ydynt wedi newid eu cyflenwyr ynni erioed (46 y cant). Nid yw mwyafrif y rhain yn dangos unrhyw awydd i wneud hynny yn y dyfodol h.y. maent wedi'u 'hymddieithrio'n barhaol' o'r farchnad. Mae'r defnyddwyr hyn yn dueddol o fod yn iau, yn derbyn incwm is a byth yn defnyddio'r rhyngrwyd. Y ddau brif reswm dros beidio â newid cyflenwyr yw eu bod yn fodlon ar eu cyflenwyr cyfredol neu eu bod o'r farn bod newid yn ormod o drafferth.

Gwelir gwahaniaeth amlwg rhwng y canlyniadau hyn ac amcangyfrifon Ofgem ar gyfer Prydain gyfan[5]. Mae cyfrannau'r rhai nad ydynt erioed wedi newid cyflenwyr yn gymharol debyg – mae'r rheoleiddiwr yn amcangyfrif mai tua 40-60 y cant yw cyfartaledd Prydain. Fodd bynnag, roedd cyfran lawer is o ddefnyddwyr sydd wedi'u hymddieithrio yng Nghymru yn dweud eu bod yn debygol o newid cyflenwyr yn y dyfodol (3 y cant yn unig o'i gymharu â chyfartaledd o 20-30 y cant ar gyfer Prydain gyfan). Mae hyn yn dynodi y gallai fod yn fwy fyth o her i annog mwy o ddefnyddwyr yng Nghymru i ymgysylltu â'r farchnad ynni.

[4] Ar 1 Hydref 2011, newidiodd Scottish and Southern Energy ei enw i SSE. Cyfeiriwyd yn aml at SSE fel SSE/SWALEC at ddibenion yr adroddiad hwn

[5] 'The Retail Market Review – Findings and initial proposals', Ofgem (Mawrth 2011) t29

Ffactorau sy'n effeithio ar lefelau newid cyflenwyr

Canfuwyd cydberthynas gref iawn gennym rhwng defnydd o'r rhyngrwyd a pha mor aml y newidir cyflenwyr ynni, ac mae hyn yn cefnogi canfyddiadau gwaith ymchwil diweddar gan Ofgem[6]. Mae pobl sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd yn llawer mwy tebygol o newid cyflenwyr ynni'n rheolaidd. Mae'n bosibl felly y gallai rhaglenni i annog rhai grwpiau o ddefnyddwyr i fanteisio ar y rhyngrwyd, a'r rhai sy'n derbyn incwm llai yn fwyaf amlwg, gynorthwyo i annog ymgysylltiad mwy gweithredol â'r farchnad ynni.

Ceir cydberthynas gref hefyd rhwng y graddau yr oedd pobl wedi newid cyflenwyr cynt a pha mor debygol oeddent o newid cyflenwyr yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys dadansoddiad cryno o ddata prisiau tanwydd deuol ar gyfer defnyddwyr canolig nwy a thrydan yn ne a gogledd Cymru. Mae'r canfyddiadau yn cadarnhau y gallai hyd yn oed y rhai sy'n aros ar dariff safonol arbed arian trwy newid cyflenwyr a/neu ddulliau talu. Mae'r arbedion mwyaf ar gael i bobl sy'n talu ag arian parod/siec bob tri mis ac nad ydynt erioed wedi newid cyflenwyr o'r blaen.

Arbed arian yw prif reswm pobl dros newid cyflenwyr, ond gall amrywiaeth fawr o ffactorau benderfynu pam mae pobl yn aros gyda'r un cyflenwr. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cwsmer o'r farchnad; gwerth tybiedig newid cyflenwyr a rhwyddineb/hyder i wneud hynny; lefelau gwasanaeth cwsmeriaid/perfformiad y cwmni; y gallu i gael gafael ar wybodaeth am brisiau/tariffau, a'i deall, er mwyn gwneud dewis cytbwys; a ffyddlondeb i frand/cwmni (ffactor bwysig yng Nghymru a'r Alban yn benodol).

Bydd angen mynd i'r afael â lefelau ymgysylltiad isel er mwyn i fwy o ddefnyddwyr gael budd o gystadleuaeth yn y sector cyflenwi ynni. Nid oes dwywaith y byddai o gymorth yn hyn o beth pe byddai defnyddwyr yn deall y farchnad yn well, ond ni fydd gwybodaeth ar ei phen ei hun yn arwain at fwy o weithredu, o anghenraid. Mae'n debygol hefyd y bydd amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol, gwybyddol ac ymddygiadol eraill yn dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau ac ymgysylltiad defnyddwyr.

Gall damcaniaeth economeg ymddygiadol gynorthwyo rhywfaint felly i ddod i ddeall ymddygiad defnyddwyr yn y farchnad ynni yn well, ac mae'n cael ei hystyried fwyfwy gan Ofgem a Llywodraeth y DU. Byddem yn annog archwiliad pellach o'r materion hyn wrth gynllunio ymgyrchoedd newid cyflenwyr.

Amddiffyn defnyddwyr sy'n agored i niwed

Yn y pen draw, os anogir defnyddwyr i ymgysylltu'n amlach â'r farchnad ynni, dylai llawer mwy o bobl allu dod o hyd i'r fargen orau i ddiwallu eu hanghenion o ran ynni. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd nesaf, wrth i gostau ynni barhau i amrywio ac i gostau ychwanegol nad ydynt yn ymwneud â defnydd gael eu hychwanegu at filiau defnyddwyr (e.e. er mwyn adennill y costau sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau amgylcheddol a chymdeithasol), mae newid cyflenwyr ar ei ben ei hun yn annhebygol o gynorthwyo rhai o'r grwpiau defnyddwyr sydd fwyaf agored i niwed i allu fforddio gwresogi eu cartrefi yn briodol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r un mor bwysig i sicrhau bod cwmnïau ynni, yn ogystal â Llywodraethau Cymru a'r DU, yn darparu'r gefnogaeth gywir i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed.

[6] 'Customer Engagement with the Energy Market – Tracking Survey: Report prepared for Ofgem' Ipsos Mori (Ionawr 2011)

Argymhellion

Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol yng ngoleuni ein canfyddiadau.

Dylai Ofgem:

- sicrhau bod strwythur yr holl dariffau trydan a nwy yn cael eu gwneud yn haws i ddefnyddwyr eu deall. Rydym yn croesawu cynigion i symud tuag at strwythur tariffau sy'n cynnwys un pris fesul uned a thâl sefydlog penodol ar gyfer tariffau safonol, ond gellid mynd ymhellach
- rhoi mwy o gyfrifoldeb ar gyflenwyr i gyfiawnhau eu rhesymau dros lansio tariffau newydd neu fersiynau newydd o dariffau presennol
- sicrhau bod defnyddwyr sy'n defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw neu sy'n talu ag arian parod/siec bob tri mis yn talu pris teg, bod modd cyfiawnhau'r gost ychwanegol, a bod y gost honno'n cael ei hadolygu'n rheolaidd
- sicrhau bod biliau a datganiadau blynyddol yn cael eu safoni yn fwy, gan gynnwys defnyddio'r un iaith a diffiniadau, er mwyn i gwsmeriaid allu deall yn haws sut maent yn defnyddio ynni
- mynnu bod cyflenwyr, wrth delewerthu neu werthu wyneb yn wyneb, yn hysbysu defnyddwyr y gallent fod yn cynnig tariffau rhatach mewn mannau eraill, er enghraifft ar-lein, neu drwy gysylltu â'r cwmni yn uniongyrchol[7]

Dylai Ofgem, cyflenwyr a Llywodraeth y DU:

- ystyried defnyddio economeg ymddygiadol wrth gynllunio a gweithredu ymgyrchoedd newid cyflenwyr, yn enwedig ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed

Dylai'r holl gyflenwyr ynni:

- ddilyn esiampl SSE, Nwy Prydain, npower a ScottishPower, trwy roi terfyn parhaol ar werthu ynni'n ddiwahoddiad ar garreg y drws
- archwilio dulliau newydd o werthu wyneb yn wyneb, gydag argymhelliad iddynt newid i system o drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn y dyfodol
- dangos eu bod wedi sefydlu strategaethau eglur i gynorthwyo pobl yn y tlodi tanwydd mwyaf difrifol, gan gynnwys annog mwy o ddefnyddwyr i fanteisio ar dariffau cymdeithasol (lle'n berthnasol[8]) a'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes[9]

Dylai Llywodraeth Cymru:

- sicrhau bod y cynlluniau effeithlonrwydd ynni, Nyth ac Arbed, wedi'u hintegreiddio'n effeithiol â rhaglenni cymorth sy'n darparu ar gyfer y DU gyfan, gan flaenoriaethu a thargedu cartrefi sydd mewn tlodi tanwydd difrifol fel mater o gyfiawnder cymdeithasol
- sicrhau ei bod yn parhau i fod yn un o ofynion allweddol ei Chynllun Tlodi Tanwydd, Nyth, i ddarparu cyngor ar dariffau, arian a dyled
- sicrhau bod y prosiect Cymunedau 2.0 yn cyrraedd yr holl grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol (fel pobl hŷn a'r rhai sy'n derbyn incwm is) a cheisio ymestyn y prosiect y tu allan i'r Ardaloedd Cydgyfeirio cyfredol er mwyn cynyddu cynhwysiant digidol ledled Cymru gyfan

[7] Anfonodd Llais Defnyddwyr lythyr agored at Ofgem ym mis Tachwedd 2011, yn tynnu sylw at ein pryderon ynglŷn â'r modd y mae cyflenwyr yn strwythuro, marchnata a gwerthu tariffau. Mae copi o'r llythyr ar ein gwefan yn Saesneg. **http://bit.ly/w9Mbd6**

[8] Mae tri o'r chwe chyflenwr mawr (sef Nwy Prydain, SSE a ScottishPower) wedi cau eu tariffau cymdeithasol i ymgeiswyr newydd

[9] Cynllun newydd a ariennir gan gyflenwyr ynni yw'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes. Daeth i rym ar 1 Ebrill 2011 a bydd yn darparu tua £1.13 biliwn o gymorth ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol i ddefnyddwyr ynni sy'n agored i niwed dros y pedair blynedd nesaf. Mae'n disodli tariffau cymdeithasol a threfniadau gwirfoddol yr arferai cyflenwyr ynni eu cynnig

Dylai Canolfan Cydweithredol Cymru:

- sicrhau bod y prosiect Cymunedau 2.0 yn cynnwys sesiynau penodol ar sut y gallai pobl arbed arian ar eu biliau ynni gan ddefnyddio'r rhyngrwyd. Er enghraifft, trwy newid i dariff arlein neu newid darparwr ynni gan ddefnyddio gwefan cymharu prisiau achrededig

Dylai'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol a Chyngor ar Bopeth Cymru:

- sicrhau y darperir cyngor ar dariffau ynni a newid cyflenwyr fel rhan annatod o ddarpariaeth wyneb yn wyneb y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yng Nghymru, yn enwedig wrth drafod cyllidebu neu hawliau budd-daliadau

Dylai Cyngor ar Bopeth Cymru, Ofgem a chyflenwyr ynni:

- archwilio gwahanol ffyrdd o annog y rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd i ymgysylltu â'r farchnad ynni fel rhan o'r Ymgyrch Ynni – y Fargen Orau. Gallai hyn gynnwys:
  - darparu cymorth mwy ymarferol i newid tariffau neu gyflenwyr ynni, gan dywys rhywun drwy'r broses
  - ffurfioli'r drefn o ddefnyddio addysgwyr cymheiriaid, sy'n newid darparwyr yn rheolaidd, i annog eraill i weithredu ar sail y wybodaeth y maent wedi'i hennill
- targedu'r cymorth sydd ar gael dan y cynllun Ynni – y Fargen Orau at gymunedau nad ydynt ar y grid nwy, gan fod cwsmeriaid trydan yn unig yn llai tebygol o newid cyflenwyr na'r rhai sydd wedi'u cysylltu â phrif gyflenwad y rhwydwaith nwy ar hyn o bryd
- sicrhau bod gwerthusiadau'r cynllun Ynni – y Fargen Orau yn y dyfodol yn y cynnwys dadansoddiad ar wahân ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban, er mwyn gallu cymharu canlyniadau'r gwledydd mewn modd mwy ystyrlon
- cynnal mwy o werthusiadau dilynol o effaith, er enghraifft chwe mis ar ôl i bobl gymryd rhan mewn sesiwn Ynni – y Fargen Orau, i weld a yw pobl wedi ymgysylltu mwy â'r farchnad ynni o ganlyniad

Dylai darparwyr cyngor eraill sy'n gweithio yn y gymuned (gan gynnwys Cymdeithasau Tai):

- archwilio cyfleoedd i gynnwys cyngor ar dariffau ynni a newid cyflenwyr fel rhan annatod o'u gwaith cynghori eu hunain, naill ai trwy gynnig cefnogaeth yn uniongyrchol neu trwy gyfeirio pobl yn briodol at ddarparwyr arbenigol, er enghraifft y cynllun Ynni – y Fargen Orau

Dylai Llywodraeth y DU:

- roi gorchymyn i ymestyn y Gostyngiad Cartrefi Cynnes i bawb sy'n gymwys i dderbyn taliadau tywydd oer yn ogystal â theuluoedd sy'n derbyn Credyd Treth Plant ac sy'n derbyn incwm is na £16,190, er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb ar draws yr holl gyflenwyr

Dylai banciau, cymdeithasau adeiladu ac undebau credyd sy'n darparu cyfleusterau cyfrif cyfredol:

- archwilio trefniadau gwahanol ar gyfer taliadau electronig er mwyn lleddfu rhai o'r pryderon sy'n gysylltiedig â thaliadau Debyd Uniongyrchol ym meddyliau llawer o ddefnyddwyr sy'n derbyn incwm isel (ee cyfleuster sy'n caniatáu i daliadau allan a thaliadau rheolaidd i mewn ddigwydd ar yr un pryd, gan alluogi deiliad y cyfrif i bennu lefel y taliadau a pha mor aml y cânt eu gwneud, ar ôl cytuno â'i gyflenwyr)

Cyflwyniad

Llais Defnyddwyr Cymru yw'r sefydliad statudol sy'n ymgyrchu dros fargen deg i ddefnyddwyr ynni yng Nghymru. Rydym yn sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu cynrychioli wrth wraidd penderfyniadau pwysig ynglŷn â pholisïau a materion ymarferol ym maes ynni, â chanolbwynt penodol ar ddefnyddwyr sy'n agored i niwed.

Fel rhan o'n gwaith ym maes ynni, mae Llais Defnyddwyr yn paratoi taflenni ffeithiau sy'n cael eu diweddaru'n wythnosol[10] gan ddangos prisiau nwy a thrydan ym mhob ardal o Brydain. Rydym hefyd yn achredu gwasanaethau cymharu prisiau ar y rhyngrwyd dan God Hyder Llais Defnyddwyr. Nod y cynllun hwn yw gwneud y broses newid cyflenwyr yn haws ac yn fwy dibynadwy i ddefnyddwyr.

Mae defnyddwyr ledled Prydain wedi gallu dewis pa gwmni sy'n cyflenwi nwy a thrydan i'w cartrefi o'r prif gyflenwad ers dros ddegawd. Yn ystod y 1990au, agorwyd y farchnad cyflenwi ynni yn raddol i gystadleuaeth. Erbyn diwedd mis Mai 1999, roedd pob defnyddiwr nwy a thrydan yn gallu newid o'r darparwr cenedlaethol (Nwy Prydain) neu ei gyflenwr trydan cyhoeddus lleol (SWALEC yn ne Cymru a Manweb yn y gogledd), i ddarparwr arall. Roedd hyn yn golygu hefyd bod cwmnïau a arferai allu darparu trydan yn unig yn gallu cyflenwi nwy, ac i'r gwrthwyneb.

Mae strwythur y farchnad cyflenwi ynni wedi newid yn sylweddol ers y cyfnod hwnnw. Mae llawer o'r cyflenwyr deiliadol gwreiddiol wedi uno ac mae cwmnïau newydd wedi ymuno â'r farchnad hefyd. Mae 18 o gwmnïau ynni yn cyflenwi defnyddwyr domestig ledled Prydain ar hyn o bryd, ond caiff y farchnad ei rheoli gan y chwe chyflenwr mawr – Nwy Prydain; EDF Energy; E.ON UK; RWE npower; ScottishPower, ac SSE, sydd wedi cadw brand SWALEC yn ne Cymru. Mae cyfran gyfunol y chwe chwmni mawr o'r farchnad yn y sector ynni domestig dros 99.5 y cant[11].

Dros y degawd diwethaf, mae Llais Defnyddwyr ac un o'n rhagflaenwyr, Golwg ar Ynni, wedi bod yn monitro gweithrediad y farchnad cyflenwi ynni. Rydym wedi pryderu ers nifer o flynyddoedd nad yw cystadleuaeth yn darparu buddion teg i'r holl ddefnyddwyr, a bod problemau sylfaenol yn bodoli o ran y ffordd y mae'r farchnad yn gweithio. Mae'r pryderon hyn wedi cymell Ofgem, y corff rheoleiddio, i gynnal dau adolygiad mawr o'r farchnad yn ystod y tair blynedd diwethaf – yr Archwiliad Cyflenwi Ynni yn 2008 ac, yn fwy diweddar, yr Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu. Yn dilyn yr olaf hwn, cyhoeddwyd cynigion manwl ym mis Rhagfyr 2011 ar gyfer diwygiadau i'r farchnad ynni domestig, fel testun ymgynghori.

[10] **http://bit.ly/xys9af**

[11] 'The Retail Market Review – Findings and initial proposals: Supplementary appendices', t49, Ofgem (Mawrth 2011)

Roedd y ddau adolygiad yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion a allai fod yn effeithio ar effeithiolrwydd cystadleuaeth yn y sector, gan gynnwys strwythur y farchnad, y berthynas rhwng prisiau ynni manwerthu a chyfanwerthu, ffactorau sy'n rhwystro cwmnïau rhag ymuno â'r farchnad, ac ymddygiad cwmnïau. Er hynny, un o'r prif feysydd yr ymchwiliwyd iddynt oedd i ba raddau y mae defnyddwyr yn ymgysylltu'n ymarferol â'r farchnad ynni a'r hyn y gellir ei wneud yn ychwanegol i hyrwyddo ymgysylltiad pellach er mwyn gwireddu buddion cystadleuaeth i ddefnyddwyr.

Mae'r corff rheoleiddio yn dadlau y rhoddir mwy o bwysau cystadleuol ar gyflenwyr i gadw cwsmeriaid cyfredol ac ennill rhai newydd os bydd lefelau ymgysylltiad yn uchel – o ran cyfran y bobl sy'n ymgysylltu â'r farchnad a pha mor aml maent yn gwneud hynny – tra bod lefelau ymgysylltiad isel ymhlith defnyddwyr yn debygol o wanhau'r pwysau cystadleuol hwnnw. Canfu'r ddau adolygiad gan Ofgem dystiolaeth fod cyflenwyr yn gwneud elw mwy yn gyffredinol gan gwsmeriaid nad ydynt yn newid cyflenwyr neu sydd wedi newid unwaith i drefniant tanwydd deuol yn unig.

Yn ôl ei adroddiad diweddaraf am y farchnad gyflenwi[12], tua £105 y cwsmer yw'r elw ar gyfer cwsmeriaid tanwydd deuol ar dariff safonol nodweddiadol ar gyfer y flwyddyn o fis Rhagfyr 2011 (£20 yn llai na'r hyn a nodwyd yn ei adroddiad ym mis Hydref). Disgwylir i'r lefelau elw hyn ostwng ymhellach dros y chwe mis mesaf i £85 y cwsmer er bod llawer o ffactorau ansicr o hyd a allai effeithio ar y ffigur hwn, gan gynnwys costau cyfanwerthu ynni.

Yn 2008, dywedwyd bod mwy o ddefnyddwyr nwy a thrydan yn newid cyflenwyr ym Mhrydain nag mewn unrhyw farchnad ynni gystadleuol o faint sylweddol yn y byd, er bod gwahaniaethau pendant i'w gweld rhwng gwahanol grwpiau defnyddwyr[13]. Yn ôl gwaith ymchwil mwy diweddar a gomisiynwyd gan y corff rheoleiddio[14], gwelir rhai arwyddion bod nifer yr achosion o newid cyflenwyr ynni ledled Prydain yn gostwng yn y tymor hirach, er bod lefelau newid cyflenwyr yn dal i fod ymhlith yr uchaf yn Ewrop. Er enghraifft, mae'r gyfradd sy'n newid cyflenwyr nwy wedi gostwng pum pwynt canran ers 2008 (o 20 y cant i 15 y cant). Yn yr un modd, mae'r gyfradd sy'n newid cyflenwyr trydan wedi gostwng pum pwynt ers 2007 (o 22 y cant i 17 y cant).

[12] 'Electricity and Gas Supply Market Report', Ofgem, 19 Rhagfyr 2011
[13] 'Energy Supply Probe - Initial Findings Report', Ofgem (Hydref 2008)
[14] 'Customer Engagement with the Energy Market – Tracking Survey', Ipsos Mori (28 Ionawr 2011)

Yn y cyd-destun hwn y penderfynodd Llais Defnyddwyr Cymru gynnal gwaith ymchwil meintiol i ymddygiad defnyddwyr yng Nghymru o ran newid cyflenwyr. Cynhaliwyd cyfanswm o 1,008 o gyfweliadau wyneb yn wyneb â sampl cynrychioliadol o oedolion 16 oed a hŷn fel rhan o Arolwg Omnibws Cymru Tri Misol Beaufort Research. Gwnaed gwaith maes rhwng 18 a 27 Tachwedd 2011[15]. Dim ond y bobl hynny a oedd yn gwbl gyfrifol neu'n gyfrifol ar y cyd am dalu biliau trydan a nwy'r cartref gafodd eu cyfweld, gan wneud cyfanswm o 823 o gyfweliadau.

Roedd y gwaith ymchwil yn nodi'r ffactorau sy'n sbarduno pobl i newid cyflenwyr, neu fel arall yn nodi'r ffactorau sy'n atal mwy o ddefnyddwyr rhag ymgysylltu â'r farchnad. Mae'r ddau adolygiad gan Ofgem wedi amlygu y ceir mwy o 'ddefnyddwyr anhyblyg', fel y'u hadnabyddir, yng Nghymru a'r Alban h.y. defnyddwyr nad ydynt yn newid cyflenwr[16], a hynny'n enwedig ymhlith defnyddwyr trydan yn ne Cymru lle mae ffyddlondeb i frand SWALEC yn dal i fod yn uchel[17].

Cyhoeddir yr adroddiad hwn hefyd ar adeg pan fo biliau ynni yn cynyddu, sy'n bryder cynyddol i lawer o gartrefi ledled Cymru. Pan gynhaliwyd ein gwaith ymchwil, roedd yr holl godiadau i brisiau a gyhoeddwyd gan y chwe chyflenwr mawr yn ystod haf 2011 wedi dod i rym. Mae defnyddwyr pedwar o'r prif gyflenwyr – ScottishPower, Nwy Prydain, SSE/SWALEC ac E.ON – wedi gweld prisiau'r ddau fath o danwydd yn codi o gyfrannau hyd at ddigidau dwbl. Mae cwsmeriaid npower ac EDF Energy (y diwethaf o'r chwech mawr i godi prisiau) wedi gweld prisiau nwy'n cynyddu o ddigidau dwbl a phrisiau trydan o ganran digid sengl (7.2 y cant a 4.5 y cant).

Mae'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy, gan weithio gyda Llais Defnyddwyr, wedi amcangyfrif y bydd y codiadau hyn i brisiau yn gwthio 93,000 o gartrefi ychwanegol yng Nghymru i dlodi tanwydd y gaeaf hwn h.y. byddant yn gwario mwy na 10 y cant o'u hincwm ar gadw eu tai yn gynnes. Mae hyn yn codi cyfanswm y cartrefi sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru i 425,000 (34 y cant), ac mae mwyafrif y rhain yn agored i niwed. Mae'r broblem yn dyfnhau yn ogystal ag yn ehangu. Mae tua un o bob pump cartref sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol, gan wario £1 o bob £5 i wresogi eu cartrefi yn ddigonol.

[15] Rhoddir manylion llawn y dull ymchwilio yn Atodiad 1

[16] Yn ei adroddiad Adolygu'r Farchnad Fanwerthu diweddaraf, mae Ofgem yn diffinio defnyddwyr anhyblyg fel y rhai sy'n dewis peidio â newid cyflenwyr, y rhai nad ydynt yn gallu newid cyflenwyr oherwydd eu hamgylchiadau neu'n rhai sy'n cael eu darbwyllo i beidio â newid oherwydd nodweddion eraill y farchnad, fel cymhlethdod tariffau

[17] 'The Retail Market Review – Findings and initial proposals: Supplementary appendices', t12, Ofgem (Mawrth 2011)

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan Ofgem yn awgrymu bod llawer o ddefnyddwyr anhyblyg yn debygol o fod yn ddefnyddwyr sy'n agored i niwed e.e. y rhai sy'n derbyn incwm isel neu sefydlog[18]. Defnyddwyr yn y categori hwn sy'n debygol o gael y budd mwyaf o arbed arian trwy ymgysylltu'n ymarferol â'r farchnad ynni – rhywbeth mwy hanfodol fyth ar adeg pan fo costau ynni yn codi.

Mae ein hadroddiad yn edrych yn benodol felly ar sut mae gwahanol grwpiau defnyddwyr yng Nghymru yn ymgysylltu â'r farchnad ynni ar hyn o bryd.

[18] 'The Retail Market Review – Findings and initial proposals: Supplementary appendices', t28, Ofgem (Mawrth 2011)

Y prif ganfyddiadau

Y farchnad trydan domestig

Ystadegau allweddol:

- Mae SSE/SWALEC yn cyflenwi trydan i 46 y cant o gartrefi yng Nghymru
- SSE/SWALEC yw'r prif gyflenwr trydan ym mhob ardal ac eithrio Gogledd Cymru, lle cyflenwir 31 y cant o gartrefi gan Scottish Power
- Mae Nwy Prydain yn cyflenwi trydan i 22 y cant o gartrefi – sy'n debyg i gyfartaledd Prydain (25 y cant)
- Mae Nwy Prydain hefyd yn cyflenwi trydan i 30 y cant o gartrefi yng Ngogledd Cymru
- Mae 53 y cant o gartrefi yn talu eu biliau trydan trwy Ddebyd Uniongyrchol; mae 22 y cant yn defnyddio mesuryddion talu ymlaen llaw a 18 y cant yn talu ag arian parod/siec bob tri mis

Canfu ein gwaith ymchwil fod gan y cwmni trydan deiliadol blaenorol yn ne Cymru, SSE/SWALEC, sail gwsmeriaid sylweddol ledled Cymru. Dywedodd dros ddau o bob pump cartref (46 y cant) mai SSE/SWALEC oedd yn cyflenwi trydan i'w cartrefi.

Mae gan ScottishPower, y cwmni trydan deiliadol arall yng Ngogledd Cymru, sail gwsmeriaid lawer llai, gan gyflenwi trydan i un o bob 10 cartref yn unig ledled Cymru (9 y cant).

Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos bod Nwy Prydain, y cwmni nwy deiliadol blaenorol, wedi denu cwsmeriaid trydan ar draws y wlad, ac mae ychydig yn fwy nag un o bob pum cartref (22 y cant) yn derbyn eu cyflenwad trydan gan y cwmni hwn ar hyn o bryd. E.ON oedd y cyflenwr trydan a nodwyd drydydd amlaf (11 y cant).

Rhoddir dadansoddiad llawn ar gyfer pob cyflenwr yn Ffigur 1 dros y dudalen. Mae'r tri chwmni â'r gyfran fwyaf o'r farchnad trydan domestig yng Nghymru yn debyg i'r sefyllfa ledled Prydain – Nwy Prydain sydd â'r gyfran fwyaf o'r farchnad (25 y cant), yna SSE (20 y cant) ac E.ON (17 y cant)[19].

[19] Ffynhonnell = Y chwe chyflenwr mawr/dadansoddiad Ofgem Awst 2010

Ffigur 1 Pa gwmni sy'n cyflenwi trydan i'ch cartref?



Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru: Sail = 824 o ymatebwyr

Wrth archwilio'r dadansoddiad rhanbarthol[20] ar gyfer y ddau gyflenwr trydan deiliadol blaenorol a Nwy Prydain, gwelwn fod Tabl 1 yn dangos mai SSE/SWALEC yw'r cyflenwr trydan mwyaf poblogaidd ym mhob rhanbarth o Gymru ac eithrio Gogledd Cymru.

Gan mai ScottishPower yw'r cyflenwr trydan deiliadol blaenorol yng Ngogledd Cymru, nid yw'n syndod bod bron un o bob tri ymatebwr yn yr ardal yn dweud mai'r cwmni hwn sy'n cyflenwi trydan i'w gartref (31 y cant). Fodd bynnag, mae, bod cyfran bron yr un faint o gartrefi yn cael eu cyflenwad gan Nwy Prydain (30 y cant). Yn gyffredinol, Nwy Prydain yw'r ail gyflenwr trydan mwyaf poblogaidd ar draws pob rhanbarth o Gymru, ac eithrio Cymoedd y De, lle cyflenwir trydan i 14 y cant gan Nwy Prydain ac i 18 y cant gan E.ON.

[20] Mae'r rhanbarthau'n seiliedig ar grwpiau o ardaloedd awdurdodau lleol. Rhoddir dadansoddiad llawn yn Atodiad 1

Tabl 1 Cyfran y cartrefi sy'n derbyn eu cyflenwad trydan gan un o'r cyflenwyr trydan neu nwy deiliadol blaenorol (%)

Rhanbarth:	Cyflenwr ynni		
	SSE/SWALEC	ScottishPower	Nwy Prydain
Gogledd Cymru	8%	31%	30%
Canolbarth/Gorllewin Cymru	69%	2%	11%
Gorllewin De Cymru	59%	1%	24%
Cymoedd y De	52%	3%	14%
Caerdydd/De-ddwyrain Cymru	49%	4%	25%
Cyfanswm	46%	9%	22%

Ffynhonnell: **Llais** Defnyddwyr Cymru: Sail = 824 o ymatebwyr

Wrth ystyried y canlyniadau yn fwy manwl, yn enwedig ar gyfer SSE/SWALEC, gwelwyd rhywfaint o amrywiad ar draws bandiau oedran a graddau cymdeithasol gan awgrymu efallai bod grwpiau penodol yn fwy tebygol nag eraill o fod wedi newid oddi wrth un o'r cyflenwyr trydan deiliadol blaenorol.

Dywedodd ychydig dros hanner y bobl 65 oed a hŷn (52 y cant), a chyfran debyg o'r rhai o radd gymdeithasol DE[21] h.y. y rhai sy'n derbyn incwm is (55 y cant), mai SSE/SWALEC sy'n cyflenwi eu trydan. Fodd bynnag, dywedodd llai o bobl 35-54 mlwydd oed (41 y cant) a'r rhai o radd gymdeithasol AB h.y. y rhai sy'n derbyn incwm uwch (31 y cant) mai SSE/SWALEC oedd eu cyflenwr trydan. Dywedodd cyfrannau uwch o'r ddau grŵp hwn fod cwmni ac eithrio'r cyflenwr trydan/nwy deiliadol blaenorol yn darparu trydan i'w cartrefi (29 y cant a 32 y cant yn eu trefn).

Er bod yr ardaloedd dosbarthu trydan a'r ffiniau rhanbarthol a ddefnyddiwyd yn ein gwaith ymchwil yn amrywio, mae'r ffigurau diweddaraf gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd[22] yn dangos pa mor flaenllaw yw SSE/SWALEC o ran cyflenwi trydan i gartrefi yn ne Cymru. Cyflenwir bron ddau o bob tri chartref (63 y cant) yng nghyn-ranbarth SWALEC gan eu 'cyflenwr cartref[23]' h.y. SSE/SWALEC. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfran gyfartalog y cartrefi ledled Prydain a gyflenwir gan eu cyflenwyr trydan cartref blaenorol (40 y cant).

Dim ond mewn un ardal arall y cyflenwir cyfran uwch o ddefnyddwyr gan eu cyflenwr trydan cartref, sef gogledd yr Alban (68 y cant). Mae hon yn ardal a gyflenwid gan Scottish Hydro gynt, sydd hefyd yn rhan o SSE bellach.

[21] Rhoddir diffiniadau o bob gradd gymdeithasol yn Atodiad 1

[22] 'Quarterly energy prices: September 2011', Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd

[23] Mae cyflenwr cartref yn cyfeirio at y cyflenwyr trydan cyhoeddus blaenorol o fewn eu hardaloedd dosbarthu eu hunain. Cyflenwyr nad ydynt yn gyflenwyr cartref yw'r cyflenwyr newydd i'r farchnad a'r cyn-gyflenwyr trydan y tu allan i'w hardaloedd eu hunain

Mae SSE yn cyflenwi dros hanner y cwsmeriaid trydan yn rhanbarth de Lloegr (52 y cant)[24], un arall o'i ardaloedd cartref, ac mae hon yn gyfran uwch na holl ardaloedd eraill Lloegr. Mae dadansoddiad diweddar gan Ofgem[25] yn cadarnhau bod gan gyflenwyr ynni deiliadol fantais gystadleuol dros gyflenwyr eraill yn eu cyn-ranbarthau cartref ac mae'n ymddangos bod SSE wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o'r safbwynt hwn. Mae'r ffaith bod y cwmni wedi dewis cadw brand y cyflenwyr cartref ym mhob un o'r lleoliadau hyn o bosibl yn esbonio ei lwyddiant i ryw raddau. Er hyn, mae ei sail gwsmeriaid gyffredinol ledled Prydain wedi tyfu dros y pedair blynedd ddiwethaf, o 7.75 miliwn i 9.65 miliwn o gwsmeriaid[26], sy'n awgrymu bod nifer o ffactorau yn debygol o fod wedi cyfrannu at y sefyllfa hon, gan gynnwys prisio cystadleuol a phwyslais ar wasanaeth i gwsmeriaid. Archwilir y mater hwn ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Mewn cyferbyniad, mae'r sefyllfa yng Ngogledd Cymru o ran newid cyflenwyr ynni yn adlewyrchu'n agosach y sefyllfa ledled Prydain. Yn ôl ystadegau diweddaraf yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, cyflenwir bron ddau o bob pum cartref yng Ngogledd Cymru a Glannau Merswy[27] (39 y cant) gan ei gyflenwr ynni cartref, Manweb gynt, sydd bellach yn masnachu fel ScottishPower.

Mae ein gwaith ymchwil ein hunain yn adlewyrchu hyn, ac mae gan ScottishPower a Nwy Prydain bron yr un gyfran o gwsmeriaid trydan yng Ngogledd Cymru.

Talu am drydan

Yn ôl ein gwaith ymchwil, mae mwy na hanner y cartrefi yng Nghymru (53 y cant) yn talu eu biliau trydan trwy Ddebyd Uniongyrchol, mae dros un o bob pump (22 y cant) yn defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw ac mae ychydig yn llai nag un o bob pump (18 y cant) yn talu ag arian parod/siec bob tri mis.

O ran trydan, mae cyfartaleddau'r diwydiant ledled y DU yn dangos bod tua 51 y cant o gartrefi yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, bod 27 y cant yn talu bob tri mis ag arian parod/siec a bod 15 y cant yn defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw[28]. Mae ein canfyddiadau yn dangos felly bod cyfran uwch na'r cyfartaledd yn defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw, a gallai hyn fod yn adlewyrchu amgylchiadau economaidd llawer o gartrefi yng Nghymru. Mae cyflenwyr yn gyffredinol yn defnyddio mesuryddion talu ymlaen llaw yn hytrach na datgysylltu cwsmeriaid, a chânt eu gosod fel mater o drefn i adennill biliau sydd heb eu talu.

Canfu gwaith ymchwil diweddar gan Lais Defnyddwyr hefyd fod pobl sy'n defnyddio mesuryddion talu ymlaen llaw mewn llety rhent yn aml[29], felly efallai fod llawer o bobl hefyd yn symud i mewn i gartref lle mae mesurydd talu ymlaen llaw wedi'i osod eisoes.

Roedd ein gwaith ymchwil yn adlewyrchu hyn. Dywedodd bron un o bob tri o bobl o radd gymdeithasol DE (37 y cant) eu bod yn defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw i dalu am eu trydan (o gymharu â dim ond 5 y cant o'r radd gymdeithasol AB).

[24] Op cit 22
[25] The Retail Market Review – Findings and initial proposals: Supplementary appendices', Ofgem (Mawrth 2011)
[26] Adroddiad Blynyddol SSE 2011 (tud. 43)
[27] Roedd ardal ddosbarthu'r cyn-gyflenwr trydan cyhoeddus, Manweb, yn cynnwys gogledd Cymru a Glannau Merswy ac felly nid yw'r ffigurau ar gael ar gyfer gogledd Cymru yn unig
[28] 'Monitoring company performance – quarterly reporting', Ofgem (Medi 2010)
[29] 'Cynilo, cwtogi, datgysylltu', Llais Defnyddwyr (Gorffennaf 2010)

Ffigur 2 Dull talu am drydan fesul gradd gymdeithasol (%)



Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru: Sail = 824 o ymatebwyr

Ni chasglwyd gwybodaeth am ddeiliadaeth cartrefi fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn. Er hynny, mae'r ffaith bod bron hanner y rhai 16-34 oed yn dweud eu bod yn defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw (48 y cant) yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod llawer ohonynt yn byw mewn llety rhent. Mewn cyferbyniad, 11 y cant yn unig o'r rhai 55 oed a hŷn a ddywedodd eu bod yn talu am eu trydan gan ddefnyddio mesurydd talu ymlaen llaw.

Roedd Debyd Uniongyrchol yn fwyaf poblogaidd ymhlith y rhai 35 oed a hŷn (58 y cant) a chartrefi ABC1 (67 y cant). Er bod 59 y cant o bobl 55 oed a hŷn yn talu eu biliau trydan trwy Ddebyd Uniongyrchol, roedd tua chwarter (23 y cant) y grŵp oedran hwn yn talu eu biliau bob tri mis ag arian parod neu siec, gan ddynodi bod mwy o bobl hŷn nag o grwpiau oedran eraill yn dewis defnyddio'r dull talu hwn.

Y farchnad nwy domestig

Ystadegau allweddol:

- SSE/SWALEC sy'n cyflenwi nwy i 36 y cant o gartrefi ar y grid yng Nghymru, ac mae'n cyflenwi i gyfran uwch na'r cyfartaledd yng Ngorllewin De Cymru a Chanolbarth/Gorllewin Cymru
- Mae Nwy Prydain yn cyflenwi nwy i 34 y cant o gartrefi ar y grid o gymharu â chyfartaledd o 43 y cant ledled Prydain
- Mae ScottishPower yn cyflenwi nwy i 21 y cant o gartrefi ar y grid yng Ngogledd Cymru
- Mae 55 y cant o gartrefi yn talu eu biliau nwy trwy Ddebyd Uniongyrchol, mae 20 y cant yn defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw ac mae 15 y cant yn talu ag arian parod/siec bob tri mis

Mae cyfran sylweddol o gartrefi Cymru heb eu cysylltu â'r prif rwydwaith nwy – Cymru sydd â'r gyfran uchaf ym Mhrydain o gartrefi nad ydynt ar y grid, sef 16 y cant.

Nwy Prydain oedd y cyflenwr monopoli ar gyfer nwy o'r prif rwydwaith ledled Prydain cyn agor y farchnad nwy i gystadleuaeth lawn ym mis Mai 1998, ac mae'r cwmni yn parhau i gyflenwi nwy o'r prif rwydwaith i lawer iawn o gartref ledled Cymru.

Yn ôl ystadegau'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Cymru sydd â'r drydedd gyfradd uchaf ym Mhrydain o ran newid oddi wrth y cyflenwr nwy deiliadol (y tu ôl i ranbarthau Gogledd Lloegr a De Lloegr[30]). Mae mwy na chwech o bob 10 cartref (62 y cant) heb fod yn derbyn eu nwy o'r prif rwydwaith gan Nwy Prydain bellach, o gymharu â chyfartaledd o 57 y cant ym Mhrydain[31].

Mae ein gwaith ymchwil diweddaraf yn cadarnhau hyn. O'r cartrefi hynny sydd wedi'u cysylltu â'r prif rwydwaith nwy, dywedodd ychydig dros un o bob tri (34 y cant) mai Nwy Prydain oedd yn cyflenwi nwy o'r prif rwydwaith i'w cartrefi. Fodd bynnag, mae SSE/SWALEC yn cyflenwi nwy i gyfran debyg (36 y cant) ar hyn o bryd. E.ON oedd y cyflenwr nwy a enwyd drydydd amlaf, gan gyflenwi ychydig dros un o bob 10 cartref (11 y cant).

Rhoddir dadansoddiad llawn ar draws yr holl gyflenwyr yn Ffigur 3 dros y dudalen. Er mwyn cymharu ledled Prydain, Nwy Prydain sydd â'r gyfran fwyaf o'r farchnad nwy domestig (43 y cant), yna SSE (17 y cant) ac E.ON (13 y cant)[32].

[30] Mae dadansoddiad yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn defnyddio rhanbarthau yn seiliedig ar ddeuddeng ardal ddosbarthu leol Transco

[31] Prisiau ynni tri misol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd Medi 2011

[32] Op cit 19

Ffigur 3 Pa gwmni sy'n cyflenwi nwy o'r prif rwydwaith i'ch cartref?



Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru: Sail = 668 o ymatebwyr

Mae'r canlyniadau hyn yn ail-gadarnhau pa mor flaenllaw yw SSE/SWALEC a Nwy Prydain yn y marchnadoedd nwy a thrydan yng Nghymru, ac mae'n debygol mai un o'r prif resymau am hyn yw bod pobl wedi newid i drefniadau tanwydd deuol gyda'r naill gwmni neu'r llall. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran nesaf.

O ran amrywiadau rhanbarthol, mae Tabl 2 yn dangos bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o gartrefi yng Ngorllewin De Cymru (57 y cant) a Chanolbarth/Gorllewin Cymru (45 y cant) yn derbyn eu cyflenwad nwy o'r prif rwydwaith gan SSE/SWALEC. Gan fod cyfrannau uwch o gartrefi yn yr ardaloedd hyn hefyd yn derbyn eu trydan gan yr un cwmni, mae hyn yn dynodi efallai fod yr ardaloedd hyn wedi cael eu targedu'n benodol o ran marchnata trefniadau tanwydd deuol.

Yn yr un modd, ScottishPower sy'n cyflenwi nwy i fwy nag un o bob pum cartref yng Ngogledd Cymru (21 y cant). Mewn cyferbyniad, roedd cyfran y cartrefi y mae Nwy Prydain yn cyflenwi nwy iddynt yn gyffredinol gyson ar draws pob rhanbarth.

Tabl 2 Cyfran y cartrefi sy'n derbyn eu cyflenwad nwy gan un o'r cyflenwyr trydan neu nwy deiliadol blaenorol (%)

Rhanbarth	Cyflenwr ynni		
	SSE/SWALEC	ScottishPower	Nwy Prydain
Gogledd Cymru	8%	21%	37%
Canolbarth/Gorllewin Cymru[32]	45%	4%	29%
Gorllewin De Cymru	57%	1%	27%
Cymoedd y De	37%	3%	34%
Caerdydd/De-ddwyrain Cymru	39%	4%	38%
Cyfanswm	36%	7%	34%

Ffynhonnell: **Llais** Defnyddwyr Cymru: Sail = 668 o ymatebwyr

Yn yr un modd â thrydan, roedd y cwmni a oedd yn cyflenwi nwy i'r cartref yn amrywio rhywfaint ar draws bandiau oedran a graddau cymdeithasol. Roedd pobl iau 16-34 oed a'r rhai o radd gymdeithasol DE yn fwy tebygol o ddweud mai SSE/SWALEC oedd yn cyflenwi nwy i'w cartrefi (43 y cant o'r ddau grŵp). Efallai fod hyn yn awgrymu bod y grwpiau hyn wedi cael eu denu fwy at newid i drefniadau tanwydd deuol gydag un o'r cyflenwyr deiliadol blaenorol.

Mewn cyferbyniad, yn yr un modd â thrydan, dywedodd cyfrannau uwch o bobl o radd gymdeithasol AB (32 y cant) a'r rhai yn y bandiau oedran canolig 35-54 oed (29 y cant) fod cwmni ac eithrio'r cyflenwyr trydan/nwy deiliadol blaenorol yn cyflenwi eu nwy.

[33] Gan mai dim ond 39 y cant o'r cartrefi hynny yng Nghanolbarth/Gorllewin Cymru a gymerodd ran yn ein harolwg a oedd wedi'u cysylltu â'r grid nwy (maint y sampl = 59), dylid trin y canlyniad hwn fel un dangosol yn hytrach nag un pendant

Talu am nwy

Roedd y ffordd yr oedd pobl yn ein harolwg yn talu am eu nwy yn adlewyrchu'r ffordd y maent yn talu am eu trydan. Roedd dros hanner y cartrefi yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol (55 y cant), un o bob pump yn defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw (20 y cant) a thua un o bob saith yn talu ag arian parod/siec bob tri mis (15 y cant).

Unwaith eto, mae'r ffigurau hyn yn wahanol i gyfartaleddau'r diwydiant ar gyfer taliadau nwy – sy'n dangos bod 54 y cant o gartrefi yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, bod 27 yn talu bob tri mis a bod 12 y cant yn defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw[34].

Yn yr un modd â thrydan, roedd mesuryddion talu ymlaen llaw yn ddull mwy cyffredin o dalu am nwy ymhlith cartrefi iau ac incwm is. Fe'u defnyddid gan bron hanner y rhai 16-34 mlwydd oed (48 y cant) ac un o bob tri yng ngradd gymdeithasol DE (33 y cant). Roedd Debyd Uniongyrchol yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio gan y rhai 35 oed a hŷn (61 y cant) a chartrefi ABC1 (67 y cant), tra bod talu ag arian parod/siec bob tri mis yn fwy poblogaidd ymhlith y rhai hŷn na 55 oed na'r grwpiau oedran eraill (20 y cant), fel y dangosir yn Ffigur 4.

Mae ein canfyddiadau hefyd yn dangos bod pobl sy'n talu eu biliau trydan a/neu nwy bob tri mis ag arian parod neu siec, neu'r rhai sy'n defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw, ymhlith y lleiaf tebygol o newid cyflenwyr. Mae ffigurau diweddaraf yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, o ran newid cyflenwyr ynni, yn dangos mai dyma'r achos ledled Prydain[35].

Ffigur 4 Dull talu am nwy fesul band oedran (%)



Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru: Sail = 668 o ymatebwyr

[34] 'Monitoring company performance – quarterly reporting', Ofgem (Medi 2010)

[35] Op cit 31

Archwilir yn fwy manwl y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr o ran newid cyflenwyr yn adrannau nesaf yr adroddiad hwn. Canfu Llais Defnyddwyr yn gyffredinol, wrth gynnal adolygiad o dariffau, y gall dewisiadau pobl a'r arian y gallent ei arbed trwy newid cyflenwyr fod yn llawer mwy cyfyngedig os byddant yn dewis talu eu biliau ynni bob tri mis neu trwy fesurydd talu ymlaen llaw yn hytrach na Debyd Uniongyrchol. Gan fod Debyd Uniongyrchol yn ddull talu llawer mwy diogel a rhatach i gwmnïau ei weinyddu, nid yw'n syndod bod llawer o gwmnïau cyfleustodau, ac nid cyflenwyr ynni yn unig, yn defnyddio cymhellion amrywiol i annog eu cwsmeriaid i dalu trwy'r dull hwn.

Fodd bynnag, amlygodd gwaith ymchwil blaenorol gan Lais Defnyddwyr Cymru[36] ei bod yn well gan lawer o bobl sy'n derbyn incwm is reoli eu cyllidebau mewn arian parod. Cadw rheolaeth dros eu cyllid oedd y ffactor hollbwysig, ac roedd llawer yn teimlo bod y rheolaeth hon yn cael ei cholli wrth dalu am bethau gan ddefnyddio Debyd Uniongyrchol. Roedd llawer o bobl yn cael eu darbwyllo i beidio â defnyddio'r system hon oherwydd bod arnynt ofn i daliadau fynd allan yn annisgwyl ac ofn y posibilrwydd o orfod talu am orddrafft heb ei awdurdodi.

Mae mwyafrif y bobl sy'n defnyddio cyllideb arian parod yn ymwybodol eu bod yn aml yn talu mwy am eu hynni na'r rhai sy'n talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, ond yn teimlo bod manteision defnyddio arian parod yn gwneud iawn am y gost ychwanegol. Mae'r sefyllfa hon yn debygol o barhau oni bai y datblygir dull arall o dalu biliau yn electronig, sy'n fwy addas ar gyfer anghenion y rhai sy'n rheoli eu cyllidebau yn wythnosol.

Profwyd cyfleuster electronig gwahanol ar gyfer talu biliau mewn gwaith ymchwil blaenorol gan Lais Defnyddwyr[37]. Byddai'r cyfleuster hwn yn rhoi mwy o reolaeth dros eu cyfrif banc i ddefnyddwyr sy'n derbyn incwm isel, ac mae'r cysyniad yn seiliedig ar sicrhau bod taliadau allan yn digwydd ar yr un pryd ag y derbynnir taliadau rheolaidd i mewn. Byddai deiliad y cyfrif yn gallu pennu lefel y taliadau a pha mor aml y byddent yn mynd allan, ar ôl cytuno â'i gyflenwyr cyfleustodau. Ni fyddai taliadau'n cael eu gwneud oni bai bod digon o arian yn y cyfrif ar eu cyfer, ac yn wahanol i Ddebyd Uniongyrchol ni fyddai ffi'n cael ei chodi os na ellid gwneud taliad oherwydd nad oedd digon o arian yn y cyfrif. Byddai hynny'n golygu bod deiliad y cyfrif yn atebol i'w gyflenwr yn unig. Canfu'r gwaith ymchwil y byddai'n well gan y mwyafrif o ddefnyddwyr sy'n derbyn incwm isel gyfrif â chyfleuster o'r fath.

[36] 'Cost of cash', Llais Defnyddwyr Cymru (Tachwedd 2009)

[37] 'Opportunity knocks: providing alternative banking solutions for low-income consumers at the Post Office', Llais Defnyddwyr (Ionawr 2010)

Pa mor aml y newidir cyflenwyr

Ystadegau allweddol:

- Nid yw dau o bob pum cartref (43 y cant) yng Nghymru erioed wedi newid eu cyflenwyr trydan a/neu nwy ac nid ydynt yn dangos unrhyw awydd i wneud hynny yn y dyfodol
- Roedd pobl iau, y rhai o radd gymdeithasol DE a phobl nad ydynt byth yn defnyddio'r rhyngrwyd yn fwy tebygol o beidio â bod wedi newid cyflenwyr erioed
- Mae tua dau o bob pum cartref wedi newid eu darparwyr trydan neu nwy ar ryw adeg ond nid yn ddiweddar, yn bennaf i drefniadau tanwydd deuol gydag un o'r cyflenwyr deiliadol blaenorol
- Mae tua un o bob wyth (12 y cant) yn disgrifio eu hunain fel newidwyr rheolaidd, sy'n ganran debyg i'r cyfartaledd ledled Prydain
- Mae un o bob 10 cartref (9 y cant) wedi newid eu tariffau trydan neu nwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond wedi aros gyda'r un cyflenwr, sy'n debyg i gyfartaledd Prydain

Ers cyflwyno cystadleuaeth gyntaf i'r marchnadoedd nwy a thrydan, mae prif weithgarwch marchnata'r cyflenwyr wedi canolbwyntio ar annog cwsmeriaid cyfredol i newid i drefniadau tanwydd deuol h.y. cyflenwi nwy i gwsmeriaid trydan cyfredol ac i'r gwrthwyneb. O ganlyniad, y cyn-gyflenwr trydan cartref ym mhob rhanbarth fu'r brif her i Nwy Prydain o ran cwsmeriaid nwy yn eu hardal.

Yn yr un modd, y cyn-ddarparwr cenedlaethol, Nwy Prydain, fu'r brif her o ran cwsmeriaid trydan ym mhob un o'r cyn-ranbarthau trydan.

Cefnogir hyn gan ganfyddiadau ein gwaith ymchwil yn sicr. Mae bron ddau o bob tri o gwsmeriaid trydan SSE/SWALEC sydd wedi'u cysylltu â'r prif rwydwaith nwy hefyd yn derbyn eu cyflenwad nwy gan yr un cwmni ar hyn o bryd (63 y cant). Yn yr un modd, mae dros hanner cwsmeriaid trydan ScottishPower yn derbyn eu cyflenwad nwy o'r prif rwydwaith gan ScottishPower (56 y cant).

Wrth archwilio'r canfyddiadau ar gyfer y cyn-ddarparwr nwy cenedlaethol, gwelir bod dros saith o bob 10 o gwsmeriaid Nwy Prydain sy'n derbyn eu cyflenwad nwy gan y cwmni, hefyd yn derbyn eu cyflenwad trydan gan Nwy Prydain ar hyn o bryd (70 y cant).

O ran pa mor aml y newidir cyflenwyr, dim ond tua un o bob 10 cwsmer trydan (11 y cant) ac un o bob wyth cwsmer nwy (13 y cant) a ddywedodd eu bod yn newid eu cyflenwyr yn rheolaidd h.y. o leiaf unwaith bob blwyddyn/dwy flynedd. Mae'n ymddangos bod hyn yn debyg i weddill Prydain lle credir bod rhwng 10 ac 20 y cant o ddefnyddwyr yn newidwyr 'gweithredol'[38].

Yn fwy cyffredin, mae ein canfyddiadau i'w gweld yn dangos bod pobl sydd wedi newid cyflenwyr, yn fwyaf tebygol i drefniant tanwydd deuol, heb newid eto mewn llawer o achosion.

Dywedodd tua un o bob pum cartref yn ein harolwg eu bod wedi newid cyflenwyr yn y gorffennol ond heb wneud hynny yn ystod y blynyddoedd diwethaf (18 y cant ar gyfer trydan; 20 y cant ar gyfer nwy), a dywedodd ychydig yn fwy mai unwaith erioed y maent wedi newid cyflenwyr (22 y cant ar gyfer trydan; 23 y cant ar gyfer nwy).

[38] 'The Retail Market Review – Findings and initial proposals', Ofgem (Mawrth 2011), t29

Mae ein gwaith ymchwil hefyd yn dangos bod cyfran uchel o ddefnyddwyr sydd wedi'u 'hymddieithrio'n barhaol'[39] yng Nghymru. Dywedodd bron hanner yr holl gartrefi (49 y cant) nad ydynt wedi newid eu cyflenwyr trydan erioed, a dywedodd dros ddau o bob pump (43 y cant) o'r rhai sydd wedi'u cysylltu â'r prif rwydwaith nwy nad ydynt erioed wedi newid eu cyflenwyr nwy.

Roedd ein canlyniadau cynharach yn dangos mai Nwy Prydain, y cyflenwr nwy deiliadol blaenorol, sy'n cyflenwi nwy i 34 y cant o bobl ar hyn o bryd er bod bron 10 y cant yn na hynny fwy wedi na hynny nodi nad ydynt wedi newid cyflenwyr nwy erioed. Un esboniad rhannol am yr anghysondeb hwn yw'r ffaith fod rhai pobl wedi symud i mewn i gartrefi lle'r oedd y sawl a oedd yn byw yno cynt wedi newid cyflenwyr eisoes.

Tabl 3 Categoreiddio grwpiau defnyddwyr yn ôl ymddygiad o ran newid cyflenwyr (ar gyfer nwy a thrydan)

Categori:	Ofgem (% a amcangyfrifir ledled Prydain)	Gwaith ymchwil LIDC (% a amcangyfrifir)	Ymateb:
Rhagweithiol ac ymatebol – yn debygol o fod wedi newid cyflenwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf	10-20%	11-13%	Yn newid cyflenwyr yn rheolaidd h.y. o leiaf unwaith bob blwyddyn/dwy flynedd
Goddefol – wedi newid cyflenwyr yn y gorffennol ond nid yn ddiweddar. I drefniant tanwydd deuol yn fwyaf tebygol	20-30%	40-43%	Wedi newid cyflenwyr yn y gorffennol ond nid yn ystod y blynyddoedd diwethaf neu wedi newid unwaith yn unig. I drefniant tanwydd deuol yn fwyaf tebygol
Wedi'u hymddieithrio – yn nodi nad ydynt wedi newid cyflenwyr erioed ond heb fod yn diystyru'r posibilrwydd y gallent wneud hynny yn y dyfodol	20-30%	3%	Erioed wedi newid cyflenwyr ond heb fod yn diystyru'r posibilrwydd y gallent wneud hynny yn y dyfodol
Wedi'u hymddieithrio'n barhaol – yn nodi nad ydynt wedi newid cyflenwyr erioed a'u bod yn annhebygol o wneud hynny yn y dyfodol	20-30%	40-46%	Erioed wedi newid cyflenwyr ac yn annhebygol o wneud hynny yn y dyfodol

Ffynhonnell: Ofgem a Llais Defnyddwyr Cymru

[39] Gweler tabl 3 am restr o ddiffiniadau Ofgem

Categoreiddio ymddygiad o ran newid cyflenwyr

Fel rhan o'i adolygiad diweddar o'r farchnad fanwerthu, mae Ofgem wedi awgrymu y gellir categoreiddio defnyddwyr yn ôl eu hymddygiad o ran newid cyflenwyr i bum gwahanol grŵp. Mae Tabl 3 yn cymharu canfyddiadau ein gwaith ymchwil ni ag amcangyfrifon Ofgem o gyfrannau'r defnyddwyr ledled Prydain sy'n perthyn i bob categori[40].

Er bod tebygrwydd rhwng ein gwaith ymchwil ni ac amcangyfrifon Ofgem, yn enwedig o ran cyfran y defnyddwyr gweithredol, ceir rhai gwahaniaethau amlwg hefyd. Mae un o'r gwahaniaethau allweddol yn ymwneud â chyfran y bobl y disgrifir eu bod wedi'u 'hymddieithrio'. Mae Ofgem yn amcangyfrif bod rhwng 40 a 60 y cant o ddefnyddwyr ledled Prydain yn 'anhyblyg' neu wedi'u hymddieithrio o'r farchnad ynni, ond yn ôl gwaith ymchwil Ofgem, gallai tua hanner y rhain fod yn agored i'r syniad o newid cyflenwyr yn y dyfodol.

Mae ein canfyddiadau ni yn dangos bod cyfran lawer uwch o ddefnyddwyr yng Nghymru wedi'u hymddieithrio'n barhaol a bod mwy o amharodrwydd ymhlith defnyddwyr sydd wedi'u hymddieithrio i ystyried newid cyflenwyr yn y dyfodol. Mae cyfran y defnyddwyr goddefol yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd a amcangyfrifir ar gyfer Prydain hefyd. Mae'r rheoleiddiwr wedi nodi ei bryder bod nifer y defnyddwyr 'goddefol' ledled Prydain yn cynyddu[41].

O ran trydan, canfu ein gwaith ymchwil fod defnyddwyr 16-34 mlwydd oed (61 y cant), y rhai o radd gymdeithasol DE (56 y cant), a'r rhai nad ydynt byth yn defnyddio'r rhyngrwyd (57 y cant) yn fwy tebygol o beidio â bod wedi newid eu cyflenwyr trydan erioed.

Roedd cyfran y bobl iau nad oeddent erioed wedi newid cyflenwyr nwy yn debyg i'r gyfran ar gyfer trydan (63 y cant). Er hynny, roedd cyfran y bobl nad oeddent wedi newid eu darparwyr nwy erioed tua 10 yn llai na'r ffigur ar gyfer trydan, yn achos pobl o radd gymdeithasol DE a'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd. Mae hyn yn awgrymu bod mwy o bobl yn y grwpiau hyn o bosibl wedi newid i drefniant tanwydd deuol gyda'u cyflenwr trydan deiliadol blaenorol.

Wrth archwilio amrywiadau rhanbarthol, gwelir bod pobl sy'n byw yng Nghanolbarth/Gorllewin Cymru (65 y cant) a Chymoedd y De (56 y cant) yn llawer mwy tebygol o ddweud nad oeddent wedi newid eu darparwyr trydan erioed. Roedd cyfran y bobl yng Ngogledd Cymru nad oeddent wedi newid eu cyflenwyr trydan erioed yn llawer llai – 30 y cant – ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod mwy o bobl wedi symud oddi wrth ScottishPower (y cyflenwr trydan deiliadol blaenorol yn yr ardal).

Canolbarth/Gorllewin Cymru[42] hefyd oedd â'r gyfran uchaf o gartrefi nad oeddent wedi newid eu darparwyr nwy erioed (57 y cant), ac yna Caerdydd/De-ddwyrain Cymru (52 y cant). Fodd bynnag, yng Nghymoedd y De, roedd nifer sylweddol is o bobl heb fod wedi newid eu darparwyr nwy erioed (45 y cant) o gymharu â'r gyfran nad oeddent erioed wedi newid eu darparwyr trydan. Y rhanbarth hwn hefyd oedd â'r gyfran uchaf o bobl a ddywedodd eu bod wedi newid darparwyr nwy unwaith (33 y cant). Mae hyn yn amlygu unwaith eto nifer y cartrefi yn yr ardal sy'n debygol o fod wedi newid i drefniadau tanwydd deuol gyda'u cyflenwr trydan deiliadol blaenorol. Gogledd Cymru oedd y rhanbarth lle'r oedd y nifer uchaf o ddefnyddwyr wedi newid cyflenwyr nwy, a dim ond tua un o bob pedwar (23 y cant) a oedd heb newid eu darparwyr nwy erioed.

[40] Oherwydd y diffiniwyd pob categori mewn modd gwahanol yn y ddau achos, dylid trin y gymhariaeth hon fel un ddangosol yn hytrach nag un bendant

[41] Op cit 37 (tud 30)

[42] Op cit 33

Ymddygiad o ran y gwahanol gyflenwyr

Byddem yn disgwyl i newidwyr gweithredol chwilio am fargen well, a hefyd i gyflenwyr gystadlu am gwsmeriaid y tu allan i'w rhanbarthau monopoli blaenorol trwy gynnig prisiau cystadleuol. O ganlyniad, mae newidwyr rheolaidd yn fwy tebygol o fod gyda chyflenwyr ac eithrio'r cyn-gyflenwyr deiliadol yng Nghymru. Mae ein canfyddiadau yn sicr yn cadarnhau hyn[43]. Fel y mae Ffigur 5 yn ei ddangos, mae cyfrannau uwch na'r cyfartaledd o gwsmeriaid cyfredol npower (24 y cant), EDF Energy (20 y cant) ac E.ON (20 y cant) yn eu disgrifio eu hunain fel newidwyr rheolaidd.

Ar y llaw arall, mae cwsmeriaid y cyn-gyflenwyr trydan a nwy deiliadol yn dangos tueddiad o newid cyflenwyr yn llai aml. Dywedodd bron hanner cwsmeriaid trydan Nwy Prydain (49 y cant) mai yn anaml yr oeddent yn newid eu cyflenwyr trydan, a dywedodd dros chwarter (28 y cant) mai unwaith yn unig yr oeddent wedi gwneud hynny. Mae hyn yn ategu canfyddiadau blaenorol bod mwyafrif y rhain yn debygol o fod yn gwsmeriaid tanwydd deuol Nwy Prydain.

Ffigur 5 Pa mor aml y newidir cyflenwyr trydan fesul darparwr trydan cyfredol (%)



Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru: Sail = 824 o ymatebwyr

[43] Oherwydd bod y samplau mor fach ar gyfer cwsmeriaid trydan EDF ac npower, a chwsmeriaid nwy EDF, npower a ScottishPower, dylid trin y canlyniadau hyn fel rhai dangosol yn hytrach na rhai pendant

Mae ein gwaith ymchwil hefyd yn cadarnhau bod SSE/SWALEC yn arbennig wedi cadw cyfran sylweddol o'u cwsmeriaid trydan yng Nghymru. Dywedodd bron ddau o bob tri o gwsmeriaid trydan SSE/SWALEC (65 y cant) nad ydynt wedi newid eu cyflenwyr trydan erioed. Mae hyn yn cymharu â 44 y cant o gwsmeriaid trydan ScottishPower.

Ni all defnyddwyr nad ydynt ar y prif rwydwaith nwy fanteisio ar drefniadau tanwydd deuol, er y gallent arbed arian ar eu biliau trydan trwy newid eu darparwyr neu dariffau yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae canlyniadau ein gwaith ymchwil yn dangos bod cartrefi sy'n derbyn cyflenwad trydan yn unig yn llai tebygol o newid yn rheolaidd na'r rhai sydd wedi'u cysylltu â'r grid nwy.

Dywedodd bron ddau o bob tri o'r rhai nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif rwydwaith nwy, nad ydynt wedi newid eu cyflenwyr trydan erioed (69 y cant). Mae hyn yn cymharu â 44 y cant o'r rhai sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy. Yn yr un modd, dim ond 5 y cant o'r cartrefi hynny nad ydynt ar y grid a ddywedodd eu bod yn newid eu cyflenwyr trydan yn rheolaidd, o gymharu â 12 y cant o'r rhai sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy.

Ffigur 6 Pa mor aml y newidir cyflenwyr nwy yn ôl darparwr nwy cyfredol (%)



Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru: Sail = 668 o ymatebwyr

Nid archwiliwyd y rhesymau penodol am y gwahaniaethau rhwng cartrefi sydd ar y grid a'r rhai nad ydynt ar y grid o ran newid cyflenwyr trydan. Mae'n bosibl fod costau trydan fod yn peri llai o bryder iddynt gan fod mwyafrif y cartrefi nad ydynt ar y grid yng Nghymru yn defnyddio tanwyddau eraill i wresogi eu cartrefi, megis olew gwresogi domestig, nwy petrolewm hylif (LPG) neu danwydd solid. Fodd bynnag, efallai ei bod yn werth hyrwyddo manteision newid cyflenwyr ymhlith yr 17 y cant o gartrefi sy'n defnyddio trydan fel eu prif danwydd ar gyfer gwresogi[44].

Mae Ffigur 6 ar y dudalen flaenorol yn rhoi dadansoddiad o ba mor aml y newidir cyflenwyr nwy o ran cyflenwyr unigol. Unwaith eto, mae'r ffigurau yn cadarnhau sefyllfa'r cyn-ddarparwr cenedlaethol, Nwy Prydain – mae 61 y cant o'u cwsmeriaid nwy cyfredol yn nodi nad ydynt erioed wedi newid eu cyflenwyr nwy.

Maent hefyd yn amlygu i ba raddau y mae'r cyn-gyflenwr trydan deiliadol yn ne Cymru, SSE/SWALEC, wedi ennill cwsmeriaid nwy. Mae'r cwsmeriaid hyn wedi tueddu i aros gyda'r cwmni wedyn. Dywedodd bron hanner cwsmeriaid nwy SSE/SWALEC (48 y cant) mai yn anaml y byddant yn newid eu cyflenwyr nwy, ac roedd 30 y cant wedi newid cyflenwyr unwaith yn unig.

Yn ddiddorol, roedd cyfraddau'r defnyddwyr sydd wedi newid i dderbyn eu cyflenwad nwy gan ScottishPower (y cyflenwr trydan deiliadol arall) yn debycach i'r cyfraddau ar gyfer cwmnïau nad ydynt yn gyflenwyr cartref[45]. Fel rydym wedi gweld yn achos trydan, mae'n ymddangos mai cwsmeriaid nwy cwmnïau nad oeddent yn gyflenwyr deiliadol – EDF Energy, npower ac E.ON – yw'r newidwyr mwyaf gweithredol h.y. maent yn newid darparwyr nwy bob blwyddyn/dwy flynedd o leiaf.

Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y defnyddwyr hyn yn fwy tebygol o chwilio am y fargen orau i ddiwallu eu hanghenion o ran ynni. Mae hefyd yn adlewyrchu'r gwahanol strategaethau marchnata a/neu brisio a ddefnyddir gan y cwmnïau hyn yng Nghymru er mwyn ennill mwy o gwsmeriaid. Er hyn, mae cyfrannau'r farchnad ar gyfer pob un o'r tri, ac EDF Energy ac npower yn enwedig, yn dal i fod yn isel.

Lle mae cwsmeriaid i gyflenwyr trydan a nwy nad oeddent yn gyflenwyr deiliadol yn dweud nad ydynt wedi newid erioed, mae'n debygol bod pobl wedi symud i gartrefi a gyflenwid gan y darparwyr hyn eisoes.

Wrth archwilio ein canlyniadau ar gyfer nwy a thrydan ar draws pob un o'r chwe chwmni mawr, roedd yn amlwg mai cwsmeriaid SSE/SWALEC yw'r rhai lleiaf gweithredol, ac roedd cyfrannau sylweddol is na'r cyfartaledd yn eu disgrifio eu hunain fel newidwyr rheolaidd (5 y cant o gwsmeriaid trydan a 7 y cant o gwsmeriaid nwy). Archwilir y mater hwn ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

[44] 'Off-gas consumers – information on households without mains gas heating', Llais Defnyddwyr (Hydref 2011). Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data o Arolwg Byw yng Nghymru 2008 Llywodraeth Cymru

[45] Op cit 43

Newid tariffau gyda chyflenwyr cyfredol

Mae Llais Defnyddwyr wedi bod yn mynegi pryder ers cryn amser ynglŷn â chymhlethdod y strwythur tariffau yn y farchnad ynni[46]. Yn aml, mae tariffau ynni wedi'u strwythuro mewn ffordd a all ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr ddeall yr amodau a thelerau allweddol sy'n gysylltiedig â'r tariff, gan gynnwys polisïau prisio a strwythurau gostyngiadau.

Yr unig beth y mae nifer y tariffau sydd ar gael yn llwyddo i'w wneud, yn aml, yw drysu pobl – yn ôl Ofgem, ers 2008, mae cyfanswm y tariffau sydd ar gael (ar-lein ac oddi ar-lein) wedi cynyddu o fwy na 70 y cant[47] i tua 400 o dariffau. Gall y ddau fater hyn atal pobl rhag ymgysylltu â'r farchnad ynni ac achosi iddynt wneud penderfyniadau gwael o ran newid cyflenwyr.

Canfu ein gwaith ymchwil mai dim ond un o bob deg ymatebwr (9 y cant) a oedd wedi newid eu tariffau trydan neu nwy ond gan aros gyda'r un cyflenwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn debyg i gyfartaledd Prydain. Yn ôl y gwaith ymchwil diweddaraf gan Ofgem[48], roedd un o bob 10 cartref ledled Prydain (10 y cant) wedi newid eu tariffau trydan yn ystod 2010, gan aros gyda'r un cyflenwyr, ac roedd un o bob wyth cartref (12 y cant) wedi newid eu tariff nwy.

Unwaith eto, pobl iau (y rhai 16-34 mlwydd oed), cartrefi C2DE a'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd oedd y lleiaf tebygol o fod wedi newid tariffau (tua 4-5 y cant ar gyfer pob grŵp). Roedd cartrefi AB (15 y cant) a'r rhai 35-44 mlwydd oed (13 y cant) ychydig yn fwy tebygol o fod wedi newid tariffau ond aros gyda'r un cyflenwyr.

Yn dilyn ei adolygiad diweddar o'r farchnad fanwerthu, mae Ofgem yn cynnig y dylid symleiddio strwythur tariffau ynni yn y gobaith y bydd yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr gymharu prisiau a dewis bargen well[49].

[46] Anfonodd Llais Defnyddwyr lythyr agored at Ofgem ynglŷn â'r pryderon hyn ym mis Rhagfyr 2010. Anfonwyd llythyr wedi'i ddiweddaru hefyd ym mis Tachwedd 2011

[47] Op cit 25 (t22)

[48] Op cit 6

[49] 'The Retail Market Review: Domestic Proposals', Ofgem (1 Rhagfyr 2011)

Rhesymau dros newid neu beidio â newid

Ystadegau allweddol:

- Roedd 69 y cant o newidwyr wedi newid er mwyn arbed arian
- Roedd 33 y cant o newidwyr wedi cymryd cyngor gan werthwyr ar garreg y drws cyn newid, ac roedd 30 y cant wedi defnyddio gwefan cymharu prisiau
- Nid oedd 30 y cant o newidwyr yn credu eu bod wedi arbed unrhyw arian ar eu biliau ynni ar ôl newid cyflenwyr
- Roedd 47 y cant o'r rhai a newidiodd gyflenwyr ar ôl ymweliad gwerthu ar garreg y drws o'r farn eu bod wedi arbed arian, o gymharu â 76 y cant o'r rhai a oedd wedi defnyddio gwefan cymharu prisiau
- Ceir cydberthynas gref rhwng defnydd o'r rhyngrwyd a pha mor aml y newidir cyflenwyr
- Dywedodd 59 y cant o bobl nad oeddent erioed wedi newid cyflenwyr mai'r rheswm oedd eu bod yn fodlon ar eu cyflenwyr cyfredol

Nid yw'n syndod mai'r prif reswm o bell ffordd pam roedd pobl wedi newid eu cyflenwyr trydan neu nwy oedd er mwyn lleihau costau ynni. Dywedodd dros ddau o bob tri o newidwyr yn ein harolwg (69 y cant) eu bod wedi gwneud hynny i arbed arian.

Roedd un o bob 10 cartref (10 y cant) wedi newid cyflenwyr gan nad oeddent yn fodlon ar eu darparwyr blaenorol. Roedd wyth y cant wedi newid cyflenwyr am eu bod am dderbyn y ddau danwydd gan yr un cyflenwr, a dywedodd nifer uwch na'r cyfartaledd o gartrefi yng Nghymoedd y De (16 y cant) ac yng Nghaerdydd/De-ddwyrain Cymru (17 y cant) mai dyma oedd eu prif reswm dros newid.

Fel y mae Ffigur 7 yn ei ddangos, dim ond 6 y cant o newidwyr a ddywedodd mai'r prif reswm dros newid oedd oherwydd ymweliad gwerthu ar garreg y drws.

Ffigur 7 Prif reswm dros newid cyflenwyr



Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru: Sail = 452 o ymatebwyr

Ymchwilio i'r farchnad

Er nad ymweliad gwerthu ar garreg y drws o bosibl oedd prif reswm defnyddwyr dros newid cyflenwyr, daeth y swyddogaeth y gall ymweliad o'r fath ei chyflawni yn y broses yn fwy amlwg wrth ofyn i bobl pa ymchwil roeddent wedi ei wneud cyn penderfynu newid cyflenwyr. Mae Ffigur 8 yn dangos mai cyngor gan werthwr ar garreg y drws oedd y ffynhonnell wybodaeth fwyaf poblogaidd. Roedd un o bob tri o newidwyr yng Nghymru (33 y cant) wedi defnyddio'r dull hwn. Roedd hyn yn sylweddol uwch ymhlith cartrefi C2DE (41 y cant), pobl 55-64 oed (40 y cant), a'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd (44 y cant).

Roedd cyfrannau uwch o newidwyr sy'n byw yng Ngorllewin De Cymru a Chymoedd y De hefyd wedi derbyn cyngor gan werthwr ar garreg y drws, gan awgrymu y gallai cymunedau yn yr ardaloedd hyn fod wedi cael eu targedu yn benodol gan gwmnïau ynni.

Nid yw'r canfyddiadau hyn yn syndod, gan mai dulliau gwerthu uniongyrchol fel gwerthu ar garreg y drws fu un o'r prif ffyrdd i gwmnïau ynni ddenu cwsmeriaid newydd yn y gorffennol. Heb fynediad at sianeli gwerthu eraill, fel y rhyngrwyd, mae grwpiau penodol megis pobl hŷn a'r rhai sy'n derbyn incwm is yn fwy tebygol o fod yn agored i dechnegau marchnata uniongyrchol.

Adlewyrchir hyn hefyd yng ngwaith ymchwil diweddaraf Ofgem, a ganfu mai gwerthu ar garreg y drws yw prif ddull rhai grwpiau, megis pobl 65 oed a hŷn, y rhai o radd gymdeithasol E a'r rhai nad oes modd iddynt ddefnyddio'r rhyngrwyd, o ddod i wybod am y bargeinion a gynigir cyn iddynt newid cyflenwyr[50].

Wrth gymharu'r canfyddiadau ar gyfer gwahanol gyflenwyr, gwelir bod cyfran cwsmeriaid trydan a nwy SSE/SWALEC a oedd wedi derbyn cyngor gan werthwr ar garreg y drws cyn newid cyflenwyr yn sylweddol uwch nag ar gyfer y rhan fwyaf o gyflenwyr eraill (44 y cant o gwsmeriaid trydan a 48 y cant o gwsmeriaid nwy), gan gynnwys y cyflenwyr deiliadol eraill yng Nghymru. Roedd cyfran cwsmeriaid ScottishPower a oedd wedi newid cyflenwyr ar ôl ymweliad gwerthu ar garreg y drws yn debycach i'r cyfartaledd, a dim ond chwarter (24 y cant) o gwsmeriaid Nwy Prydain a oedd wedi newid yn dilyn ymweliad gwerthu ar garreg y drws.

Ymhlith cwsmeriaid y chwe chwmni mawr nad ydynt yn gyflenwyr cartref, h.y. E.ON, EDF Energy ac npower, cwsmeriaid yr olaf sydd fwyaf tebygol o fod wedi derbyn cyngor ynglŷn â newid cyflenwyr ar garreg y drws (tua dau o bob pump o gwsmeriaid npower).

Mae'n ymddangos bod y canlyniadau hyn yn awgrymu y bu hwn yn ddull gwerthu penodol a ddefnyddiwyd gan SSE/SWALEC ac npower ers cyflwyno marchnad gystadleuol, er mwyn denu cwsmeriaid tanwydd deuol a/neu gwsmeriaid newydd yng Nghymru.

[50] Op cit 6

Ffigur 8 Pa ymchwil wnaethoch chi cyn penderfynu newid cyflenwyr? (Ymateb lluosog)



Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru: Sail = 452 o ymatebwyr

Bu pryderon cynyddol ers blynyddoedd lawer fod y broses o werthu ar garreg y drws yn y farchnad ynni yn siomi defnyddwyr. Mae tystiolaeth wedi dangos bod cannoedd o filoedd o bobl wedi talu mwy am eu hynni yn y pen draw ar ôl newid cyflenwyr ar garreg y drws. Canfu gwaith ymchwil diweddar gan Lais Defnyddwyr[51] fod gan bron dri o bob pedwar o bobl yng Nghymru (73 y cant) farn negyddol ynglŷn â gwerthu ar garreg y drws gan gwmnïau ynni. Roedd dros un o bob tri o bobl yng Nghymru (37 y cant) yn teimlo fwyaf dan bwysau i brynu yn ystod y broses gwerthu ar garreg y drws.

O ganlyniad i'r pryderon hyn, galwodd Llais Defnyddwyr ym mis Gorffennaf y llynedd ar i gwmnïau ynni roi'r gorau i werthu'n ddiwahoddiad ar garreg y drws am dri mis[52]. Anogwyd cyflenwyr i chwilio am ddewisiadau eraill, ac argymhellwyd iddynt symud i system o apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw yn y dyfodol. Os nad oedd cyflenwyr yn barod i newid eu harferion ar ôl y cyfnod hwn, argymhellwyd gennym y dylai Ofgem ystyried gwahardd gwerthu'n ddiwahoddiad ar garreg y drws yn barhaol.

Yn dilyn ein hymgyrch, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd SSE/SWALEC, Nwy Prydain, npower a ScottishPower i gyd wedi cyhoeddi y byddent yn rhoi terfyn ar y math hwn o farchnata yn barhaol, tra bod EDF Energy wedi rhoi'r gorau am y tro i'w holl alwadau diwahoddiad ar garreg y drws.

[51] 'The end of the road: energy consumers' experiences with doorstep sellers', Llais Defnyddwyr, Gorffennaf 2011. Seiliedig ar ganlyniadau Arolwg Omnibws TNS CAPI a gynhaliwyd ym mis Mai 2011. 1,878 o gyfweliadau ledled Prydain (103 o gyfweliadau yng Nghymru) ynglŷn â barn pobl am werthu ar garreg y drws, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y sector ynni

[52] Ibid

Dim ond E.ON sydd heb newid ei safbwynt. Ymhlith y cwmnïau mwy newydd, llai o faint sydd wedi ymuno â'r farchnad, mae Co-operative Energy ac Ebico yn cefnogi'n llwyr y syniad o roi terfyn ar alwadau diwahoddiad. Er hynny, mae'n annhebygol y gallai llawer o gyflenwyr llai fforddio i farchnata fel hyn gan ei fod yn ddull sy'n gofyn am lawer o adnoddau.

Mae Ffigur 8 uchod yn amlygu pa mor boblogaidd yw gwefannau cymharu prisiau fel ffynhonnell wybodaeth, yn ogystal â derbyn cyngor gan werthwr ar garreg y drws. Mae tri o bob 10 newidiwr yng Nghymru yn eu defnyddio (30 y cant). Mae'r gwefannau hyn yn arbennig o boblogaidd ymhlith pobl 54 oed ac iau (39 y cant), cartrefi ABC1 (42 y cant), a'r rhai sy'n defnyddio'r rhyngrwyd bob diwrnod (46 y cant), ond yn llawer llai poblogaidd ymhlith y rhai 65 oed a hŷn (11 y cant), y rhai o radd gymdeithasol DE (14 y cant) a'r rhai â salwch neu anabledd hirdymor (15 y cant). Mae'n debygol mai'r esboniad am hyn yw'r ffaith i gyfrannau uwch o'r grwpiau hyn ddweud nad ydynt byth yn defnyddio'r rhyngrwyd (71 y cant; 45 y cant a 55 y cant yn eu trefn). Roedd newidwyr sy'n byw yng Ngorllewin De Cymru a Chymoedd y De wedi defnyddio llai arnynt hefyd.

Yn gyffredinol, defnyddiwyd gwefannau cymharu prisiau gan fwy o gwsmeriaid trydan a nwy cyfredol E.ON ac npower, sy'n dangos bod pobl yn gallu cymharu bargeinion yn haws ar draws pob cwmni ynni os yw adnoddau fel hyn ar gael iddynt ac os ydynt yn eu defnyddio.

Mewn cyferbyniad, prin iawn oedd y bobl a oedd wedi ffonio i chwilio am fargen well cyn newid cyflenwyr. Rhai rhesymau posibl yw nad yw pobl yn ymwybodol o'r dewis hwn, nad ydynt yn ystyried bod yr amser sydd ei angen yn werth yr ymdrech, neu efallai eu bod yn pryderu am bris galwadau os byddant yn ffonio o ffonau symudol – yn gyffredinol, nid yw'r 'munudau am ddim' sydd wedi'u cynnwys mewn llawer o gynlluniau ffonau symudol yn berthnasol i rifau 0800/0845 (a ddefnyddir yn aml gan gyflenwyr). Maent yn fwy tebygol o orfod talu cyfradd bremiwm os byddant yn galw o ffôn symudol. Cymru sydd â'r gyfran uchaf o bobl sy'n dweud eu bod yn byw mewn cartref â ffôn symudol yn unig (19 y cant)[53].

Arbed arian ar ôl newid cyflenwyr

Gan mai arbed arian oedd y sbardun mwyaf i bobl newid eu darparwyr nwy a thrydan, efallai ei bod yn destun pryder felly gweld nad oedd tri o bob 10 newidiwr (30 y cant) o'r farn eu bod wedi arbed unrhyw arian ar eu biliau ynni ar ôl newid cyflenwyr.

Roedd y graddau yr oedd pobl yn teimlo iddynt arbed unrhyw arian yn amrywio ar draws y gwahanol sianeli gwybodaeth a ddefnyddiwyd ganddynt cyn newid cyflenwyr. Roedd y rhai a oedd wedi newid gan ymateb i dechnegau gwerthu uniongyrchol yn llai tebygol o deimlo eu bod wedi arbed arian. Mae hyn yn amlygu ymhellach y problemau sy'n gysylltiedig â'r math hwn o farchnata. Canfu ein gwaith ymchwil fod bron hanner y rhai a oedd wedi derbyn cyngor gan werthwr ar garreg y drws yn credu eu bod wedi arbed arian (47 y cant). Yn yr un modd, roedd cyfran debyg o'r rhai a oedd wedi derbyn cyngor gan werthwr dros y ffôn (49 y cant)[54] yn teimlo eu bod wedi arbed arian.

[53] 'Communications Market Report: Wales', Ofcom (Awst 2011)

[54] Oherwydd bod y sampl yn fach ar gyfer y categori hwn, dylid trin y canlyniadau hyn fel rhai dangosol yn hytrach na rhai pendant

Fel y nodwyd eisoes, mae'r dystiolaeth yn dangos bod llawer o bobl sy'n newid cyflenwyr ar ôl derbyn cyngor gan werthwr ar garreg y drws yn newid i drefniant drutach yn y pen draw. Efallai na fydd defnyddwyr yn ymwybodol chwaith mai yn anaml y bydd cwmnïau yn cynnig eu tariffau rhataf wrth werthu wyneb yn wyneb. Tan yn ddiweddar, y tueddiad fu i gadw trefniadau o'r fath ar gyfer gwerthu ar-lein, boed hynny trwy wefannau cymharu prisiau neu wefan y cyflenwyr eu hunain. Fodd bynnag, ceir arwyddion bod rhai cwmnïau yn dechrau newid eu polisïau – ar ddiwedd mis Hydref 2011, cyhoeddodd SSE ei fod yn rhoi terfyn ar dariffau ar-lein yn unig[55]. Byddem yn hoffi gweld cyflenwyr eraill yn dilyn yr esiampl hon.

Er mwyn lleihau nifer y penderfyniadau gwael ynglŷn â newid cyflenwyr a gwella'r broses gwerthu uniongyrchol yn gyffredinol, mae Llais Defnyddwyr o'r farn y dylid cyflwyno gofyniad newydd o ran pob arfer gwerthu wyneb yn wyneb neu delewerthu, gan fynnu bod cyflenwyr yn cyflwyno'r holl dariffau y maent yn eu cynnig, waeth pa sianel werthu a ddefnyddir. Os nad yw hyn yn bosibl, yna dylid hysbysu defnyddwyr y gallai fod gan y cwmni fargeinion gwell mewn mannau eraill[56].

Yn sgil ei adolygiad diweddaraf o'r farchnad fanwerthu, mae Ofgem yn cynnig y dylid cyflwyno Label Gwybodaeth am Dariffau safonol, er mwyn cynorthwyo defnyddwyr i gymharu nifer o nodweddion allweddol mewn gwahanol dariffau.

Yn ddiweddar hefyd, daeth Llywodraeth y DU i gytundeb â chwmnïau ynni i ddarparu neges yn cyfeirio defnyddwyr at dariffau rhatach ar dudalen flaen eu biliau, gan annog pobl i ffonio eu cyflenwyr neu fynd i wefan i weld a allent fod yn arbed arian ar eu biliau ynni. Daethpwyd i'r cytundeb hwn ar sail wirfoddol ar hyn o bryd, ond ceir darpariaethau yn Neddf Ynni 2011 (a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Hydref 2011) i'r Llywodraeth ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddarparu'r wybodaeth hon i'w cwsmeriaid. Yn ystod y misoedd nesaf, mae cwmnïau wedi cytuno hefyd i ysgrifennu at eu cwsmeriaid tariff safonol sy'n talu ag arian parod neu siec, i roi gwybod iddynt os gallant gynnig bargen ratach iddynt.

Mewn cyferbyniad â'r rhai a oedd wedi newid cyflenwyr yn dilyn cysylltiad uniongyrchol gan werthwyr, roedd dros dri chwarter y rhai a oedd wedi bod ar wefan cymharu prisiau (76 y cant) o'r farn eu bod wedi arbed arian ar eu biliau ynni o ganlyniad i newid cyflenwyr. Roedd pobl a oedd wedi dilyn cyngor ffrindiau neu deulu hefyd yn fwy tebygol o fod wedi arbed arian (71 y cant). Dywedodd tua un o bob saith (15 y cant) o'r holl rai a arbedodd arian, eu bod wedi arbed llawer mwy na'r disgwyl, a dywedodd bron hanner (47 y cant) eu bod wedi arbed ychydig yn fwy na'r disgwyl.

[55] **http://bbc.in/AbiCZ7**
[56] Op cit 51

Defnyddio'r rhyngrwyd a newid cyflenwyr

Trwy gydol yr adroddiad hwn, mae ein canfyddiadau yn amlygu cydberthynas gref rhwng defnydd o'r rhyngrwyd yng Nghymru, a pha mor aml y newidir cyflenwyr a pha mor fodlon yw pobl ar y broses. Mae'r sefyllfa hon yn amlwg ledled Prydain, wrth i ddadansoddiad diweddaraf Ofgem o ymgysylltiad defnyddwyr â'r farchnad ynni ganfod bod y rhai nad oes ganddynt gyfle i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn parhau i fod ymhlith y lleiaf tebygol o newid cyflenwyr, gan gyferbynnu'n sylweddol â phobl sy'n defnyddio'r rhyngrwyd[57].

Fel rydym wedi gweld, mae dau brif fantais i ddefnyddwyr ynni o ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae'n ei gwneud yn haws i bobl chwilio am y bargeinion ynni gorau, ond hefyd mae cwmnïau ynni yn tueddu i gynnig rhai o'u bargeinion rhataf i'w cwsmeriaid ar-lein.

Yng Nghymru, mae'n galonogol gweld bod cysylltiadau â'r rhyngrwyd yn y cartref a'r defnydd o'r rhyngrwyd yn parhau i gynyddu. Yn ôl ystadegau diweddaraf Ofcom[58], mae'r nifer sydd â chyswllt band eang yng Nghymru wedi cynyddu o gymaint â saith pwynt canran yn y flwyddyn ddiwethaf i 71 y cant o gartrefi. Dyma'r cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn a gofnodwyd ledled gwledydd y DU, er ei fod yn dal ychydig yn is na chyfartaledd y DU (74 y cant).

Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n manteisio ar gyswllt band eang yn amrywio'n sylweddol ymhlith y gwahanol grwpiau defnyddwyr, ac mae'n sylweddol is ymhlith y grwpiau hynny sydd leiaf tebygol o newid cyflenwyr ynni'n rheolaidd. Er enghraifft, dim ond tua hanner y bobl o radd gymdeithasol DE (55 y cant) sydd â band eang.

Rhesymau dros beidio â newid cyflenwyr

Yn ôl ein gwaith ymchwil diweddaraf, nid yw bron hanner y cartrefi yng Nghymru erioed wedi newid eu cyflenwyr trydan neu nwy o'r prif rwydwaith. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr hyn (59 y cant) mai'r rheswm yw eu bod yn fodlon ar eu darparwyr cyfredol, ac roedd bron un o bob pump (19 y cant) yn teimlo bod newid cyflenwyr yn ormod o drafferth.

Prin iawn oedd y bobl a ddywedodd nad oeddent yn gwybod sut i newid cyflenwyr neu eu bod yn teimlo ei bod yn ormod o risg neu'n rhy anodd. Ceir dadansoddiad llawn yn Ffigur 9 isod.

Mae gwaith ymchwil Ofgem ledled Prydain yn cefnogi'r canfyddiadau hyn[59]. Y tri rheswm a nodir amlaf dros beidio â newid cyflenwyr yw bod pobl yn fodlon ar eu cyflenwyr cyfredol, bod pobl o'r farn bod newid cyflenwyr yn drafferth, ac nad oes digon o wahaniaeth rhwng cyflenwyr i'w gwneud yn werth chweil newid.

Yn adran nesaf yr adroddiad hwn, rydym yn archwilio ymhellach rai o'r ffactorau a all effeithio ar ymgysylltiad (neu ddiffyg ymgysylltiad) defnyddwyr â'r farchnad ynni.

[57] 'Customer engagement with the Energy Market – Tracking Survey: Report prepared for Ofgem', Ipsos Mori (Ionawr 2011)

[58] 'The Communications Market 2011 (August)', Ofcom

[59] Op cit 57

Ffigur 9 Y prif reswm dros beidio â newid cyflenwyr



Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru: Sail = 372 o ymatebwyr

Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad o ran newid cyflenwyr

Ar wahân i bris, ceir llawer o ffactorau rhyng-gysylltiedig sy'n debygol o effeithio ar y modd y mae defnyddiwr yn penderfynu pwy sy'n cyflenwi nwy a thrydan i'w gartref, a thrwy hynny ar ymddygiad y defnyddiwr o ran newid cyflenwyr.

Mae hyn yn cynnwys:

- gwybodaeth defnyddwyr am y farchnad ac ymwybyddiaeth ohoni
- gwerth tybiedig newid cyflenwyr a pha mor hawdd yw gwneud hynny/pa mor hyderus ydynt i wneud hynny
- lefelau gwasanaeth i gwsmeriaid/perfformiad y cwmni
- gallu i gael gafael ar wybodaeth am brisiau/tariffau a'i deall er mwyn gwneud dewis cytbwys
- y gweithgarwch marchnata gan gwmnïau unigol
- ffyddlondeb i frand/cwmni
- ac amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol, gwybyddol ac ymddygiadol eraill sy'n dylanwadu ar benderfyniadau defnyddwyr

Mae llawer o'r rhain wedi cael eu trafod yn drylwyr ac mae pob un yn debygol o effeithio ar ymddygiad defnyddwyr yng Nghymru o ran newid cyflenwyr.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae cymhlethdod tariffau wedi bod yn bryder cynyddol i Lais Defnyddwyr dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf ac fe'i nodir yn aml fel nodwedd arwyddocaol sy'n atal defnyddwyr rhag ymgysylltu mwy â'r farchnad ynni.

Cyhoeddwyd cynigion manwl Ofgem ar gyfer gwneud tariffau'n llai cymhleth ym mis Rhagfyr 2011, er mwyn ymgynghori yn eu cylch[60]. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pob cyflenwr ag un tariff safonol ar gyfer pob dull talu ar gyfer pob tanwydd
- Ofgem yn pennu elfen wedi'i safoni ar gyfer pob tariff safonol
- mae'n rhaid i bob tariff arall fod am gyfnod penodol heb unrhyw gontractau sy'n parhau yn awtomatig – byddai prisiau, amodau a thelerau yn cael eu gwarantu am gyfnod y contract
- ni fydd unrhyw gyfyngiadau ar nifer y tariffau cyfnod penodol y gall cwmnïau eu cynnig

Mae Llais Defnyddwyr o'r farn bod y cynigion hyn i fynd i'r afael â chymhlethdod tariffau yn uchelgeisiol a bod rhinwedd gwirioneddol iddynt, ond bod risgiau sylweddol yn gysylltiedig â nhw hefyd. Rydym yn poeni y gallai fod goblygiadau anfwriadol sylweddol iddynt, yn enwedig o ran costau symud e.e. symud pobl o amrywiaeth eang o dariffau i amrywiaeth lawer llai o dariffau. Os bydd lefel ymgysylltiad isel ymhlith defnyddwyr yn parhau i fod yn broblem, mae'n bosibl y gallai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr aros ar gynhyrchion safonol mwy anghystadleuol.

Rydym o'r farn bod angen i'r cynigion hyn newid ymddygiad pobl, sy'n broses hynod gymhleth a llawn her, er mwyn llwyddo. Mae angen i ddefnyddwyr allu cael gafael ar well gwybodaeth er mwyn dod i ddeall y farchnad, ond ni fydd hynny o anghenraid yn peri iddynt weithredu.

[60] 'The Retail Market Review: Domestic Proposals', Ofgem (1 Rhagfyr 2011)

Rydym yn nodi bod Ofgem yn parhau i ddefnyddio economeg ymddygiad i gynorthwyo i nodi 'tueddiadau' ymhlith defnyddwyr a allai fod yn berthnasol ym marchnad ynni Prydain[61] a byddem yn annog bod gwaith yn parhau yn y maes hwn, y tu hwnt i wneud tariffau'n llai cymhleth.

Wrth ystyried ffactorau penodol a allai hefyd fod yn dylanwadu ar sefyllfa gref cwmnïau penodol, ac SSE/SWALEC yn ne Cymru yn benodol, nododd Ofgem yng nghanfyddiadau ei ymchwiliad yn 2008 fod llawer o ddefnyddwyr yng Nghymru (a'r Alban) wedi nodi rhywfaint o ffyddlondeb i'r cwmni roeddent yn ei weld fel y 'cyflenwr cenedlaethol' h.y. SWALEC[62]. Mae SSE wedi parhau i farchnata ei frand fel SWALEC yn ardal De Cymru (ac, yn yr un modd, Scottish Hydro yn yr Alban) ac felly mae hyn yn debygol o effeithio ar y modd y mae defnyddwyr yn gweld y cwmni.

Mae gwaith ymchwil a wnaed gan Lais Defnyddwyr Cymru'r llynedd[63] yn cadarnhau'r dybiaeth hon hefyd. Disgrifiodd bron hanner cwsmeriaid trydan SSE/SWALEC (46 y cant) eu cyflenwr trydan fel 'cwmni o Gymru'. Disgrifiodd un o bob chwe chwsmer ychwanegol (16 y cant) ei gyflenwr fel 'y Bwrdd Trydan', gan amlygu mai cyfyngedig yw dealltwriaeth rhai defnyddwyr o'r modd yr agorwyd y farchnad cyflenwi ynni i gystadleuaeth.

Hefyd, mae SSE/SWALEC ar frig y siartiau yn gyson ar gyfer gwasanaeth i gwsmeriaid/ymdrin â chwynion. Ers mis Rhagfyr 2010, mae Llais Defnyddwyr wedi bod yn cyhoeddi tablau cynghrair o ran cwynion bob tri mis[64]. Fel y dangosir yn Nhabl 4 isod, tan fis Medi 2011, roedd SSE yn gwneud yn well na gweddill y chwe chyflenwr mawr trwy sicrhau'r nifer isaf o gwynion gan gwsmeriaid.

Bu Nwy Prydain ac npower yn destun ymchwiliadau gan Ofgem, y corff rheoleiddio, yn ddiweddar i sut roeddent yn ymdrin â chwynion gan gwsmeriaid. Canfuwyd bod y ddau wedi methu â chydymffurfio â rheoliadau ar safonau ymdrin â chwynion, a chafodd Nwy Prydain ddirwy o £2.5 miliwn ac npower ddirwy o £2 filiwn yn ystod y misoedd diweddar. Ers cychwyn yr ymchwiliadau, mae'r ddau gwmni wedi cymryd camau i wella eu systemau ymdrin â chwynion. Yn achos Nwy Prydain yn benodol, adlewyrchir hyn yn ein tablau cynghrair, wrth i'r cwmni sicrhau sgôr pedair seren ym mhob chwarter yn 2011.

SSE yw'r unig gyflenwr i ennill y sgôr uchaf o bum seren. Ar gyfartaledd, cynyddodd nifer y cwynion ar draws y diwydiant o ychydig dros chwarter (26 y cant) rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2011. Digwyddodd hyn ar yr un adeg ag y cyhoeddwyd codiadau i brisiau ynni ac roedd y mwyafrif wedi dechrau cael eu rhoi ar waith.

[61] 'What can behavioural economics say about GB energy consumers?' Ofgem (Mawrth 2011)

[62] 'Energy Supply Probe – Initial Findings Report', Ofgem (Hydref 2008), tud 56

[63] Arolwg Omnibws misol Opinion Research Services (ORS) dros y ffôn. 1,007 o gyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod mis Medi 2010

[64] Mae Llais Defnyddwyr wedi creu procsi ar gyfer perfformiad yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr sydd wedi cysylltu â sefydliad annibynnol am gyngor neu gefnogaeth gyda phroblem ym maes ynni. Rhoddir y cwmnïau yn nhrefn nifer y cysylltiadau gan ddefnyddwyr â Chyswllt Defnyddwyr, Llais Defnyddwyr a'r Ombwdsmon Ynni o gymharu â'u cyfran o'r farchnad yn ystod y tri mis blaenorol. Caiff gwahanol fathau o gwynion eu pwysoli i adlewyrchu difrifoldeb y gŵyn a'r amser a dreuliwyd a'r ymdrech a wnaed gan y defnyddiwr i gael datrys ei broblem

Tabl 4 Tabl Cynghrair Cwynion Ynni Llais Defnyddwyr

Cyflenwr	Sgôr				
	Gor – Medi 2010	Hyd – Rhag 2010	Ion – Maw 2011	Ebr – Meh 2011	Gor – Medi 2011
SSE	4****	4****	4****	5*****	5*****
Nwy Prydain	3***	3***	4****	4****	4****
E.ON	3***	2**	3***	4****	3***
ScottishPower	2**	2**	2**	3***	3***
npower	2**	1*	2**	3***	2**
EDF Energy[64]	2**	2**	2**	1*	0

Dadansoddiad o ddata cymharu prisiau yng Nghymru

Mae canlyniadau ein gwaith ymchwil wedi dangos bod darparwyr trydan a nwy deiliadol yn dal i fod â chyfran fawr o'r farchnad ynni yng Nghymru, yn enwedig SSE/SWALEC a Nwy Prydain.

Gan mai arbed arian yw prif reswm pobl dros newid cyflenwyr ynni, byddwn yn archwilio yn yr adran hon y data cymharu prisiau diweddaraf ar gyfer pob un o'r chwe chyflenwr mawr yn ardal SWALEC gynt yn ne Cymru a rhanbarth Manweb gynt yng Ngogledd Cymru (sydd hefyd yn cynnwys Glannau Merswy a Swydd Gaer).

Er bod amrywiaeth eang o wahanol dariffau ar gael ar hyn o bryd, dywed Ofgem yr amcangyfrifir bod tri o bob pedwar cwsmer ar dariff safonol eu cyflenwyr. Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos hefyd bod mwyafrif y newidwyr yng Nghymru wedi newid i drefniadau tanwydd deuol gydag un o'r cyflenwyr deiliadol blaenorol.

Felly mae'r data a ddefnyddir yn Nhablau 5a a 5b yn ystyried sut mae prisiau cyfradd safonol tanwydd deuol yn amrywio ar gyfer defnyddwyr canolig nwy a thrydan[66] ar gyfer pob dull talu.

Roedd y prisiau a roddir yn gyfredol ar 19 Rhagfyr 2011. Mae hyn ar ôl i'r holl godiadau pris a gyhoeddwyd yn ystod haf 2011 ddod i rym.

[65] Mae'n debygol mai'r prif reswm dros y cynnydd yn nifer y cwynion i EDF Energy yw'r ffaith y sefydlwyd system filio newydd

[66] Mae'r holl gyfrifiadau yn seiliedig ar ddefnydd blynyddol o 3,300 kWh (defnyddiwr canolig) ar gyfer trydan cyfradd safonol a 16.500 kWh (defnyddiwr canolig) ar gyfer nwy cyfradd safonol. Mae'r holl brisiau a ddangosir yn cynnwys TAW o 5 y cant

Tabl 5a **Data cymharu prisiau cyfredol tanwydd deuol yng nghyn-ranbarth SWALEC de Cymru (19 Rhagfyr 2011)** (SSE yw'r cyflenwr trydan deiliadol bellach)

Cyflenwr	Dull talu		
	Debyd uniongyrchol	Arian parod/siec bob tri mis	Mesurydd talu ymlaen llaw
SSE/SWALEC	£1,231	£1,298	£1,297
Nwy Prydain	£1,240	£1,307	Amherthnasol[47]
EDF Energy	£1,177	£1,252	£1,252
npower	£1,203	£1,297	£1,302
E.ON	£1,195	£1,299	£1,300
ScottishPower	£1,231	£1,418	£1,317

Ffynhonnell: Data a gasglwyd ynghyd ar ran Llais Defnyddwyr gan www.energylinx.co.uk

Mae Tabl 5a yn dangos bod £63 o wahaniaeth rhwng y rhataf o'r chwe chyflenwr mawr (EDF Energy) a'r drutaf (Nwy Prydain), wrth edrych ar y prisiau a delir gan ddefnyddwyr canolig sy'n talu am danwydd deuol trwy Ddebyd Uniongyrchol yn ne Cymru.

Mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys y chwe chyflenwr mawr yn unig. Mae dull cymharu prisiau Llais Defnyddwyr yn ein galluogi i gymharu prisiau'r holl gyflenwyr. Gan ddefnyddio'r meini prawf prisio canlynol (h.y. tanwydd deuol, tariff cyfradd safonol; defnyddiwr canolig; Debyd Uniongyrchol), EDF Energy yw'r cyflenwr rhataf yn rhanbarth De Cymru o hyd (£1,177 y flwyddyn)[68].

[67] Amherthnasol = dim tariff ar gael ar gyfer y cyflenwr neu'r dull talu hwn

[68] Ar 19 Rhagfyr 2011

Tabl 5b **Data cymharu prisiau cyfredol tanwydd deuol yng nghyn-ranbarth MANWEB Gogledd Cymru (19 Rhagfyr 2011)** (ScottishPower yw'r cyflenwr trydan deiliadol bellach)

Cyflenwr	Dull talu		
	Debyd uniongyrchol:	Arian parod/siec bob tri mis:	Mesurydd talu ymlaen llaw:
SSE/SWALEC	£1,219	£1,285	£1,285
Nwy Prydain	£1,235	£1,302	Amherthnasol[69]
EDF Energy	£1,179	£1,255	£1,255
Npower	£1,202	£1,296	£1,306
E.ON	£1,210	£1,315	£1,315
ScottishPower	£1,242	£1,419	£1,283

Ffynhonnell: Data a gasglwyd ynghyd ar ran Llais Defnyddwyr gan www.energylinx.co.uk

Mae archwiliad tebyg o'r data ar gyfer Gogledd Cymru yn Nhabl 5b hefyd yn dangos gwahaniaeth o £63 rhwng y rhataf o'r chwe chyflenwr mawr (EDF Energy) a'r cyflenwr drutaf (ScottishPower) ar gyfer defnyddwyr canolig sy'n talu am danwydd deuol trwy Ddebyd Uniongyrchol yng Ngogledd Cymru.

Fodd bynnag, trwy ddefnyddio dull cymharu prisiau Llais Defnyddwyr, canfuwyd gennym mai un o'r cwmnïau newydd i ymuno â'r farchnad ynni, Co-operative Energy, yw'r cyflenwr rhataf yng Ngogledd Cymru mewn gwirionedd, yn seiliedig ar y meini prawf prisio a ddefnyddiwyd ar gyfer de Cymru (£1,172 y flwyddyn)[70].

Mae'r data yn y ddau dabl hefyd yn dangos sut y gallai pobl leihau eu biliau ynni o gyfartaledd o £99 y flwyddyn yn ne Cymru a £103 y flwyddyn yng Ngogledd Cymru trwy newid dulliau talu, o dalu ag arian parod/siec bob tri mis i Ddebyd Uniongyrchol.

Yn dilyn y codiadau diweddaraf mewn prisiau, mae pob un o'r tablau uchod yn dangos mai'r tri chyflenwr a gyhoeddodd gyntaf eu bod yn codi eu prisiau, sef ScottishPower, Nwy Prydain ac SSE, yw'r cyflenwyr drutaf yn y ddau ranbarth ar hyn o bryd. EDF Energy oedd yr olaf o'r chwe chyflenwr mawr i godi prisiau sy'n debygol o fod wedi rhoi mantais gystadleuol iddynt dros gyflenwyr eraill. Mae patrwm tebyg yn amlwg ledled Prydain.

Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos bod nifer fawr o gartrefi yng Nghymru o hyd nad ydynt wedi newid cyflenwyr ynni erioed. I'r rhai sy'n byw yn ne Cymru, mae hyn yn golygu y bydd eu trydan yn dal i gael ei gyflenwi gan SSE/SWALEC a'u nwy gan Nwy Prydain. Yn yr un modd yng Ngogledd Cymru, bydd pobl nad ydynt wedi newid cyflenwyr yn dal i dderbyn eu trydan gan ScottishPower ac, unwaith eto, eu nwy gan Nwy Prydain.

[69] Op cit 67
[70] Op cit 68

Tabl 5c Cwsmer yn Ne Cymru (tariff cyfradd safonol; defnyddiwr canolig)

Cyflenwyr cyfredol	Trydan yn unig (SSE/SWALEC)	£523
	Nwy yn unig (Nwy Prydain)	£785
	Cyfanswm:	***£1,308***
Cyflenwr newydd	Tanwydd deuol (EDF Energy)	£1,252
	Arian a arbedir (talu â siec/arian parod)	***£56***
	Tanwydd deuol (EDF Energy)	£1,177
	Arian a arbedir (talu trwy Ddebyd Uniongyrchol)	***£131***

Tabl 5ch Cwsmer yng Ngogledd Cymru (tariff cyfradd safonol; defnyddiwr canolig)

Cyflenwyr cyfredol	Trydan yn unig (ScottishPower)	£580
	Nwy yn unig (Nwy Prydain)	£792
	Cyfanswm:	***£1,372***
Cyflenwr newydd	Tanwydd deuol (EDF Energy)	£1,255
	Arian a arbedir (talu â siec/arian parod)	***£117***
	Tanwydd deuol (Co-operative Energy)	£1,172
	Arian a arbedir (talu trwy Ddebyd Uniongyrchol)	***£200***

Mae Tablau 5c a 5ch isod yn rhoi syniad o'r arian y gallai pobl ei arbed pe baent yn newid cyflenwyr a hefyd yn newid i drefniant tanwydd deuol gyda'r cyflenwr newydd, os nad ydynt erioed wedi gwneud hynny. Gellir arbed arian sylweddol hefyd trwy newid dulliau talu, felly mae'r enghreifftiau a ddarperir hefyd yn caniatáu ar gyfer rhywun yn newid o dalu ag arian parod/siec bob tri mis i Ddebyd Uniongyrchol.

Mae'r dadansoddiad uchod yn cadarnhau bod llawer o ddefnyddwyr yng Nghymru yn colli cyfle i gael bargeinion ynni rhatach trwy beidio ag ymgysylltu â'r farchnad ynni. Gellid hefyd arbed rhagor o arian trwy newid o dariff cyfradd safonol eu cyflenwr.

Maeadran olaf ein hadroddiad yn archwilio i ba raddau y mae pobl Cymru yn barod i chwilio am fargen ynni well yn y dyfodol neu i ba raddau y gallant wneud hynny.

Y tebygolrwydd o newid cyflenwyr yn y dyfodol

Ystadegau allweddol:

- Dywedodd un o bob wyth o bobl (13 y cant) eu bod yn debygol o newid eu cyflenwyr trydan neu nwy yn ystod y flwyddyn nesaf, ac mae'r ffigur yn codi i 21 y cant o'r rhai a oedd wedi newid cyflenwyr o'r blaen
- Dywedodd cyfrannau ychydig yn uwch o bobl 54 oed ac iau, y rhai sy'n byw yng Ngogledd Cymru a phobl sy'n defnyddio'r rhyngrwyd bob dydd eu bod yn debygol o newid cyflenwyr yn ystod y flwyddyn nesaf
- Dywedodd 67 y cant o bobl nad oedd yn debygol o gwbl y byddent yn newid cyflenwyr yn y dyfodol rhagweladwy
- Dywedodd 94 y cant o'r rhai hynny nad ydynt erioed wedi newid cyflenwyr, eu bod hefyd yn annhebygol o newid yn ystod y flwyddyn nesaf

Ar adeg ein harolwg (diwedd mis Tachwedd 2011) roedd y codiadau i brisiau a gyhoeddwyd gan bob un o'r chwe chyflenwr ynni mawr yn ystod yr haf wedi dod i rym.

Er i brisiau godi, dim ond tua un o bob wyth o bobl (13 y cant) a ddywedodd ei bod yn debygol y byddant yn newid eu cyflenwyr trydan neu nwy yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn eithaf tebyg i gyfran y bobl sy'n eu disgrifio eu hunain fel newidwyr rheolaidd. Byddai'n ymddangos felly nad yw'r codiadau i brisiau ynni wedi cael fawr o effaith ar ymddygiad defnyddwyr yng Nghymru o ran newid cyflenwyr.

Mewn cyferbyniad, dywedodd 82 y cant o ymatebwyr eu bod yn annhebygol o newid eu darparwyr ynni yn ystod y flwyddyn nesaf, a dywedodd dau o bob tri ymatebwr (67 y cant) nad oedd yn debygol o gwbl y byddent yn newid cyflenwyr yn y dyfodol rhagweladwy.

Wrth archwilio'r canlyniadau ar gyfer cwsmeriaid cyflenwyr unigol (fel y dangosir yn Ffigurau 10a a 10b)[71], gwelir yn amlwg bod cyfrannau uwch o gwsmeriaid trydan a nwy EDF Energy ac E.ON yn dweud eu bod yn debygol o newid cyflenwyr yn ystod y flwyddyn nesaf (rhwng 23 a 33 y cant). Y ffaith bod cwsmeriaid y cwmnïau hyn yn fwy tebygol o fod yn newidwyr rheolaidd yw'r esboniad mwyaf tebygol.

Gan gadarnhau cryfder eu sefyllfa yng Nghymru, dywedodd bron wyth o bob 10 o gwsmeriaid trydan a nwy SSE/SWALEC (79 y cant) nad oeddent yn debygol o gwbl o newid cyflenwyr yn ystod y flwyddyn nesaf.

[71] Oherwydd bod y samplau'n fach ar gyfer cwsmeriaid trydan EDF ac npower a chwsmeriaid nwy EDF, npower a ScottishPower, dylid trin y canlyniadau hyn fel rhai dangosol yn hytrach na rhai pendant

Ffigur 10a Y tebygolrwydd o newid cyflenwyr yn ystod y flwyddyn nesaf yn ôl darparwr trydan cyfredol (%)



Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru: Sail = 824 o ymatebwyr

Ffigur 10b Y tebygolrwydd o newid cyflenwyr yn ystod y flwyddyn nesaf yn ôl darparwr nwy cyfredol (%)



Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru: Sail = 668 o ymatebwyr

O ran proffil y bobl sy'n debygol o newid cyflenwyr, dywedodd cyfrannau ychydig yn uwch o bobl 54 oed ac iau (17 y cant), y rhai sy'n byw yng Ngogledd Cymru (22 y cant) a'r rhai sy'n defnyddio'r rhyngrwyd bob dydd (17 y cant) y byddent yn debygol o newid yn ystod y flwyddyn nesaf. Roedd y rhai a oedd yn lleiaf tebygol o fod yn ystyried newid cyflenwyr yn cynnwys pobl 65 oed a hŷn a'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd (92 y cant ar gyfer y ddau).

Roedd cydberthynas gref hefyd rhwng y tebygolrwydd o newid cyflenwyr yn ystod y flwyddyn nesaf ac i ba raddau yr oedd pobl wedi newid cyflenwyr yn y gorffennol. Dywedodd tua un o bob pum newidiwr (21 y cant) eu bod yn debygol o newid eu cyflenwyr trydan neu nwy eto yn ystod y flwyddyn nesaf. Dywedodd mwyafrif y rhai nad oeddent wedi newid cyflenwyr erioed, eu bod yn annhebygol o newid cyflenwyr yn ystod y flwyddyn nesaf (94 y cant).

Byddai'n ymddangos felly bod llawer i'w wneud i annog mwy o ddefnyddwyr yng Nghymru i ymgysylltu'n fwy gweithredol â'r farchnad ynni, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n derbyn incwm is, pobl iau a hŷn, a'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd. Dylid targedu cefnogaeth at y grwpiau hyn yn benodol felly i'w hannog i newid cyflenwyr.

Ar hyn o bryd, un o'r prif raglenni sy'n darparu cymorth wyneb yn wyneb uniongyrchol ar newid cyflenwyr ynni yw ymgyrch Ynni – Y Fargen Orau. Mae Cyngor ar Bopeth wedi bod yn rhedeg y cynllun yng Nghymru a Lloegr gyda chefnogaeth gan Ofgem a chwmnïau ynni mawr, ers 2008. Mae ein cydweithwyr yn Llais Defnyddwyr yr Alban hefyd yn cefnogi darpariaeth y rhaglen yn yr Alban.

Mae'r ymgyrch wedi'i thargedu'n bennaf at grwpiau sy'n agored i niwed a'r rhai sydd mewn perygl o dlodi tanwydd, yn ogystal ag aelodau staff rheng flaen sy'n gweithio gyda'r grwpiau hyn. Mae wedi'i chynllunio'n bennaf i roi mwy o hyder i bobl chwilio am y fargen orau o ran cyflenwr ynni, gan eu cynorthwyo i arbed arian ar eu biliau neu i wybod ble i gael cymorth os byddant yn cael trafferth yn talu eu biliau ynni. Mae nifer o sefydliadau ledled Cymru wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r rhaglen i gynghorwyr rheng flaen a defnyddwyr.

Mae'r gwerthusiad diweddaraf o raglen Ynni – Y Fargen Orau 2011 yng Nghymru, a gynhaliwyd o fis Ionawr i fis Mai 2011, yn amcangyfrif y bydd pob gweithiwr rheng flaen yn cynghori tua 13 o gleientiaid. Golyga hyn y gallai nifer y defnyddwyr a gynorthwywyd yng Nghymru fod wedi cynyddu i tua 2,000[72] o bosibl.

[72] 'Energy Best Deal Evaluation Report 2011, Y Ganolfan Ynni Cynaliadwy' (Hydref 2011)

Canfu'r gwerthusiad hefyd fod 80 y cant o ddefnyddwyr yn dweud y byddent yn bendant yn gwneud rhywbeth neu'n debygol o wneud rhywbeth o ganlyniad i'r sesiwn. Y cam mwyaf poblogaidd y bwriadwyd ei gymryd oedd cysylltu â'u cyflenwyr ynni (58 y cant), ac yna edrych ar brisiau cyflenwyr eraill (49 y cant) a dweud wrth ffrindiau a theulu (48 y cant).

Mae'n ymddangos bod y rhaglen wedi llwyddo i roi mwy o hyder i'r rhai a gymerodd ran ymgysylltu â'r farchnad ynni neu rannu'r wybodaeth â phobl eraill. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth i ddangos i ba raddau y mae pobl yn gweithredu yn ôl eu bwriad ac yn newid i fargen well mewn gwirionedd (trwy newid i gyflenwr neu dariff arall). Mae angen gwneud gwaith i ddeall ymddygiad defnyddwyr yn y cyswllt hwn, er mwyn cynorthwyo i wella canlyniadau mwy hirdymor yr ymgyrch.

Mae ein gwaith ymchwil wedi amlygu'r ffaith fod cyfran fawr o ddefnyddwyr yng Nghymru nad ydynt yn ymgysylltu â'r farchnad ynni o hyd. Gan mai cyfran fechan o ddefnyddwyr yn unig y gall ymgyrch Ynni – Y Fargen Orau ei chyrraedd, mae'n werth chweil archwilio beth arall y gellir ei wneud i dargedu mwy o ddefnyddwyr.

Mae Llais Defnyddwyr ar hyn o bryd yn ymchwilio i bosibiliadau'r syniad o newid cyflenwyr ar y cyd, a sut y gellid rhoi hyn ar waith yn y farchnad cyfleustodau, gan gynnwys ynni. Gyda'r dull hwn, byddai defnyddwyr yn gallu dewis cofrestru gyda gwasanaeth cyfryngu. Gan ddefnyddio grym prynu'r grŵp cyfan, byddai'r cyfryngwr wedyn yn gweithio ar ran pawb i sicrhau bargen fwy cystadleuol nag y gallai pob aelod o'r grŵp ei chael ar ei ben ei hun. Byddai'r cyflenwr sy'n gwneud y cynnig gorau yn elwa trwy gael llawer o bobl yn trosglwyddo i'w gwmni ar yr un pryd. Bydd Llais Defnyddwyr yn gwneud mwy o waith ar hyn yn 2012.

Casgliad

Mae ein canfyddiadau yn amlygu bod ymgysylltiad defnyddwyr â'r farchnad ynni ar hyn o bryd yn dal i fod yn isel yng Nghymru.

Mae cyfran y bobl sy'n newid yn rheolaidd yn debyg i'r hyn a ganfuwyd yng ngwaith ymchwil Ofgem ar gyfer gweddill Prydain, o ran y rhai sy'n newid cyflenwyr yn aml neu'r rhai sydd wedi newid tariff ond gan aros gyda'r un cyflenwr. Fodd bynnag, mae llawer mwy o'r defnyddwyr hynny yng Nghymru nad ydynt wedi newid cyflenwyr erioed, heb fod yn dangos unrhyw awydd i wneud hynny yn y dyfodol. Mae hyn yn dangos y gallai fod yn fwy fyth o her i annog mwy o ddefnyddwyr i ymgysylltu â'r farchnad ynni yng Nghymru.

Dywedodd mwyafrif y rhai a oedd wedi newid cyflenwyr eu bod wedi gwneud hynny'n anaml neu unwaith yn unig. Mae ein tystiolaeth yn dangos y gwnaed hyn yn bennaf o ganlyniad i newid i drefniadau tanwydd deuol gydag un o'r cyflenwyr deiliadol blaenorol, ac yn fwyaf amlwg SSE/SWALEC a Nwy Prydain, sef cwmnïau mwyaf blaenllaw'r farchnad yng Nghymru.

Mae'n debygol y ceir llawer o ffactorau rhyng-gysylltiedig sy'n egluro pam bod y ddau gwmni hyn i'w gweld wedi llwyddo i gadw cyfrannau da o'r farchnad yng Nghymru ers agor y farchnad ynni i gystadleuaeth dros ddegawd yn ôl – y ddau gwmni hyn sydd â'r cyfrannau mwyaf o'r farchnad ddomestig ym Mhrydain hefyd. Mae ein gwaith ymchwil i'w weld yn cefnogi'r ffaith bod ffyddlondeb i frand SWALEC, a'i 'Gymreictod' tybiedig, yn parhau i fod yn gymharol uchel, a gallai hyn esbonio sefyllfa gref y cwmni yng Nghanolbarth a De Cymru i ryw raddau.

Rydym wedi gweld hefyd bod y ffordd y mae pobl yn ymgysylltu â'r farchnad yn cael dylanwad mawr ar eu hymddygiad o ran newid cyflenwyr. Ceir cydberthynas gref rhwng defnydd o'r rhyngrwyd ac ymgysylltiad rhagweithiol. Mae pobl sydd wedi defnyddio'r dull hwn hefyd yn llawer mwy tebygol o gredu eu bod wedi arbed arian ar eu biliau, gan awgrymu bod lefel y wybodaeth sydd ar gael drwy'r rhyngrwyd yn galluogi pobl i wneud penderfyniadau doethach.

Mewn cyferbyniad, mae'r rhai sydd wedi newid cyflenwyr gan ymateb i ddulliau gwerthu uniongyrchol, ac yn enwedig gwerthu ar garreg y drws, yn llawer llai tebygol o feddwl eu bod wedi arbed unrhyw arian ar eu biliau ynni o ganlyniad. Mae'n eglur bod angen mynd i'r afael â materion fel y rhain er mwyn annog pobl i ymgysylltu mwy â'r farchnad, ac er mwyn iddynt ymddiried mwy mewn cwmnïau ynni. Gellid gwneud hyn trwy ddarparu gwell gwybodaeth wrth werthu, a rhoi mwy o amser i bobl ystyried y dewisiadau cyn gwneud penderfyniad i newid cyflenwyr.

Os cânt eu rheoli'n effeithiol, y gobaith yw y bydd cynigion Ofgem i symleiddio'r strwythur tariffau yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr gymharu bargeinion y gwahanol gyflenwyr, yn ogystal â chymharu tariffau gyda'r un cyflenwr. Gellid cefnogi pobl i newid tariff heb newid cyflenwr fel cam cyntaf pwysig i annog mwy o ymgysylltiad gweithredol â'r farchnad ynni ehangach.

Rydym hefyd yn gwybod na fydd defnyddwyr o anghenraid yn gweithredu o ganlyniad i dderbyn gwell gwybodaeth. Mae'n broses lawn her i gefnogi pobl i newid ymddygiad – proses sy'n debygol o fod yn gofyn am ddull gwaith aml-haen a gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n llywio ymddygiad pobl.

Mae prisiau ynni yn cynyddu'n barhaus, a disgwylir i'r farchnad ynni gael ei diwygio yn dilyn adolygiad diweddar Ofgem o'r farchnad fanwerthu. O ystyried hyn, rydym o'r farn y ceir cyfleoedd i fanteisio ar y sefyllfa a thargedu cefnogaeth fwy ymarferol at grwpiau penodol a fyddai'n cael y budd mwyaf o newid eu cyflenwyr neu eu tariffau, ond nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n derbyn incwm is, pobl iau a hŷn, a phobl eraill sy'n byw mewn tlodi tanwydd.

Fodd bynnag, mae newid cyflenwyr yn unig yn annhebygol o fod yn ddigon i gynorthwyo rhai o'r grwpiau defnyddwyr sydd fwyaf agored i niwed i allu fforddio gwresogi eu cartrefi yn ddigonol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r un mor bwysig i sicrhau bod cwmnïau ynni, yn ogystal â Llywodraethau Cymru a'r DU, yn darparu'r gefnogaeth gywir i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Atodiad 1 – Dull Ymchwil

Arolwg Omnibws Beaufort

Is-gontractiwyd gwaith maes i Beaufort Research Cyf o Gaerdydd, gan ddefnyddio ei arolwg Omnibws Cymru tri misol.

Nod yr arolwg Omnibws yw bod yn gynrychiadol o'r oedolion 16 oed a hŷn sy'n preswylio yng Nghymru. Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA) yw'r uned samplu, a dewisir 69 pwynt cyfweld ledled Cymru â thebygolrwydd sy'n gymesur â'r boblogaeth breswyl, ar ôl haenu yn ôl awdurdod lleol a gradd gymdeithasol..

Defnyddir mesurau rhyng-gysylltiedig i reoli cwota demograffig ar gyfer oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn rhyw, wrth ddewis ymatebwyr o fewn pob pwynt samplu.

Caiff cwotâu eu pennu i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewiswyd. Dewisir sampl ffres o leoliadau cyfweld ac unigolion i'w cyfweld ar gyfer pob arolwg, ac ni chyfwelir mwy nag un unigolyn o bob cartref.

Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweld Personol â Chymorth Cyfrifiadur). Defnyddir gweithwyr maes profiadol Beaufort a gwneir gwaith dilysu dilynol trwy'r post a thros y ffôn yn unol ag ISO 20252.

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer arolwg mis Tachwedd 2011 rhwng 18 a 27 Tachwedd 2011. Cwblhawyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,008 o gyfweliadau, a chwblhawyd 823 ymhlith y rhai sy'n gyfrifol eu hunain neu ar y cyd am dalu biliau trydan a/neu nwy'r cartref.

Roedd y rhanbarthau a ddefnyddiwyd i gyflwyno data yn cynnwys grwpiau o awdurdodau unedol, fel y'u rhestrir drosodd.

Diffiniad o'r rhanbarthau

Rhanbarth:	Awdurdodau Unedol
Gogledd Cymru	Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd.
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro.
Gorllewin De Cymru	Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr.
Caerdydd a De-ddwyrain Cymru	Caerdydd, Bro Morgannwg, Tor-faen, Sir Fynwy, Casnewydd.
Cymoedd y De	Caerffili, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf.

Diffiniad o raddau cymdeithasol

Y graddau a restrir isod yw'r diffiniadau o ddosbarth cymdeithasol a ddefnyddir gan Sefydliad yr Ymarferwyr Hysbysebu, ac maent yn safonol ym mhob arolwg a gynhelir gan Beaufort Research Cyf.

A	Dosbarth canol uwch	Rheoli, gweinyddol neu broffesiynol uwch
B	Dosbarth canol	Rheoli, gweinyddol neu broffesiynol canolig
C1	Dosbarth canol is	Goruchwylydd neu glerigol a rheoli, gweinyddol neu broffesiynol is
C2	Dosbarth gweithiol crefftus	Gweithwyr llaw crefftus
D	Dosbarth gweithiol	Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft
E	Y rhai sydd ar y lefelau cynhaliaeth isaf	Pensiynwyr y wladwriaeth ac ati, nad oes ganddynt unrhyw enillion eraill

Atodiad 2 – Y cymorth sydd ar gael

HOLWCH a oes ffordd ratach o dalu

Os ydych yn talu ag arian parod neu siec, bydd eich cyflenwyr yn ysgrifennu atoch y gaeaf hwn, ond nid oes rhaid i chi aros am y llythyr i ddarganfod a allech chi fod yn arbed arian. Gallwch gysylltu â'ch cyflenwyr ynni ar y rhifau ffôn isod er mwyn gofyn iddynt beth yw'r fargen rataf y gallant ei chynnig i chi.

Gallwch ddarganfod hefyd a ydych chi'n gymwys i dderbyn cymorth ariannol ychwanegol os ydych yn derbyn incwm isel, neu gymorth ychwanegol trwy **Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth** y cyflenwyr.

Nwy Prydain – Rhif ffôn: 0800 048 0202

EDF Energy – Rhif ffôn: 0800 096 9000

E.ON – Rhif ffôn: 0845 059 9905

npower Rhif ffôn: 0845 070 4851 (Debyd Uniongyrchol misol) 0845 070 4850 (cwsmeriaid arian parod, siec neu Ddebyd Uniongyrchol bob tri mis) 0845 070 4853 (cwsmeriaid mesurydd talu ymlaen llaw)

SSE – Rhif ffôn: 0845 7444 555 (SSE a Southern Electric) 0845 300 2141 (Scottish Hydro) 0800 052 5252 (SWALEC) 0845 073 3030 (Atlantic)

ScottishPower – Rhif ffôn: 0845 270 0700

Co-operative Energy – Rhif ffôn: 0800 954 0693

Ebico – Rhif ffôn: 0800 458 7689

Ecotricity – Rhif ffôn: 0845 555 7100 (cwsmeriaid domestig)

First Utility – Rhif ffôn: 0845 215 5000

Good Energy – Rhif ffôn: 0845 601 1410

Green Energy – Rhif ffôn: 0800 783 8851

LoCO2 Energy – Rhif ffôn: 0845 074 3601

Ovo – Rhif ffôn: 0800 5999 440 neu 01285 771 800

Spark Energy – Rhif ffôn: 0845 034 7474

Utilita – Rhif ffôn: 0845 450 4357

Utility Warehouse Rhif ffôn: 0844 815 7777

NEWIDIWCH i gwmni ynni rhatach

Gall gwefannau newid cyflenwyr eich cynorthwyo i ddod o hyd i'r cyfraddau nwy a thrydan gorau i chi. Gofalwch eich bod yn defnyddio gwasanaeth newid cyflenwyr sydd wedi'i achredu gan **god hyder Llais Defnyddwyr** er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn gwybodaeth annibynnol, gywir a chyfredol i'ch cynorthwyo i gael y fargen orau. Ceir 13 o wefannau wedi'u hachredu, ac mae gan naw ohonynt wasanaeth ffôn hefyd:

BeatthatQuote.com – 0845 652 1546

Confused.com

Energy Helpline – 0800 074 0745

Energylinx – 0800 849 7077

Fuelswitch

Moneysupermarket.com – 0845 345 1296

Simply switch – 08000 111 395

switchelectricandgas.com

TheEnergyShop.com – 0845 330 7247

UK Power – 0800 093 2447

Unravelit

Uswitch – 0800 404 7908

Which? Switch – 01992 822867

Mae'r cynllun Ynni – Y **Fargen Orau**, a weithredir gan Gyngor ar Bopeth ac Ofgem, yn cynnig sesiynau cyngor wyneb yn wyneb, sy'n cynorthwyo pobl i chwilio am y fargen orau, newid cyflenwyr, lleihau eu biliau a chael cymorth os ydynt ar ei hôl hi gyda'u taliadau. Mae cyngor ychwanegol ar gael ar-lein hefyd, trwy chwech o **ffilmiau cymorth** newydd.

INSIWLEIDDIWCH eich cartref er mwyn arbed ynni

Gall gwsmeriaid ynni yng Nghymru ffonio **Cynllun Nyth** Llywodraeth Cymru am ddim ar 0800 512 012 (neu 0300 456 2655 o ffonau symudol). Mae'n cynnig cyngor ar arbed ynni a gall roi gwybod i chi a oes hawl gennych o bosibl i dderbyn arian ychwanegol i gynorthwyo i gael dau ben llinyn ynghyd. Cewch wybod hefyd a ydych yn gymwys i gael gwneud gwelliannau yn rhad neu am ddim i'ch cartref, i gynorthwyo i'w wneud yn gynhesach.

Gallwch hefyd siarad yn uniongyrchol â'ch cwmni ynni am waith inswleiddio a mesurau effeithlonrwydd ynni eraill y gallent eu cynnig i chi yn rhatach neu am ddim dan gynllun **CERT** (tan ddiwedd 2012).

Mae manylion cyswllt pob cyflenwr isod.

Nwy Prydain – 0800 980 8177
E.ON – 0800 479 0162
EDF Energy – 0800 096 9966
npower – 0800 02 22 20
ScottishPower – 0845 601 7836
SSE – 0800 072 7201

Os ydych yn cael trafferth talu biliau ynni'r gaeaf, neu'n poeni ynglŷn â'u talu, gallwch hefyd gysylltu â'ch Swyddfa Cyngor ar Bopeth leol neu'r **Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes** ar 0800 336699.